

Telerau ac Amodau safonol GLLM am gyflenwi nwyddau a gwasanaethau.

1. Dehongliad

1.1 Diffiniadau. Y diffiniadau a ganlyn sy'n gymwys yn yr Amodau hyn:

'Derbyn' - Mae Swyddog Awdurdodedig y Coleg wedi derbyn bod y Nwyddau a'r / neu'r Gwasanaethau yn bodloni gofynion y Cytundeb.

'Dyddiad Derbyn' - y dyddiad y mae'r Swyddog Awdurdodedig wedi Derbyn y Nwyddau a'r / neu'r Gwasanaethau.

'Rheolwr y Cytundeb' - yr ystyr a nodir yng nghymal 3.

'Eitemau' - yr holl offer, deunyddiau, lluniadau, manylebau, data ac ati a ddarperir neu a fenthycir i'r Cyflenwr gan y Coleg.

'Awdurdodedig' - wedi ei lofnodi gan un o Swyddogion Awdurdodedig y Coleg.

'Swyddog Awdurdodedig' - un o weithiwr cyflogedig y Coleg sydd wedi'i awdurdodi un ai'n gyffredinol neu'n benodol gan y Coleg i ymrwmo i Gytundeb neu i weithredu ar ran y Coleg mewn perthynas â'r Cytundeb.

'Diwrnod Gwaith' - diwrnod (ac eithrio Sadwrn, Sul neu ŵyl gyhoeddus) pan fo banciau yn Llundain yn agored ar gyfer busnes.

'Coleg' - Grŵp Llandrillo Menai

'Amodau' - y telerau a'r amodau a nodir yn y ddogfen hon.

'Contract' - y contract rhwng y coleg a'r Cyflenwr am gyflenwi Nwyddau a / neu Wasanaethau yn unol â chymal 2.

'Rheolwr Data' - yr ystyr a nodir yn Neddf Diogelu Data 1998.

'Gwrthrych y Data' - yr ystyr a nodir yn Neddf Diogelu Data 1998.

'Cyflenwadau' - dogfennau, cynnyrch a deunyddiau a ddatblygir gan y Cyflenwr neu ei asiantau, contractwyr a gweithwyr fel rhan o'r Gwasanaethau, neu mewn perthynas â'r Gwasanaethau ar unrhyw ffurf, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, lluniadau, mapiau, cynlluniau, diagramau, dyluniadau, lluniau, rhaglenni cyfrifiadurol, manylion data ac adroddiadau.

'Cyflenwi' - yr ystyr a nodir yng nghymal 5.

'Dyddiad Cyflenwi' - y dyddiad a nodir yn y Contract.

'Cyfarwyddiadau Cyflenwi' - y cyfarwyddiadau a nodir yn y Contract ar gyfer darparu'r Nwyddau a'r / neu'r Gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wybodaeth arall yr ystyria'r Coleg yn berthnasol i ddarparu'r Nwyddau a'r / neu'r Gwasanaethau.

'Nwyddau' - y nwyddau (neu unrhyw ran ohonynt) a nodir yn yr Archeb.

'Ymarfer Diwydiannol Da' - arfer sgiliau, ymroddiad, gofal a rhagofal sydd yn rhesymol i'w ddisgwyl fel arfer gan gyflenwyr medrus a phrofiadol sy'n gyfrifol am gyflenwi nwyddau a gwasanaethau cyffelyb i'r Nwyddau a'r Gwasanaethau sy'n berthnasol i'r Contract, ac yn yr un amgylchiadau neu mewn amgylchiadau cyffelyb.

'Manyleb Nwyddau' - unrhyw fanylebau ar gyfer y Nwyddau, gan gynnwys unrhyw gynlluniau neu luniadau a roddir gan y Coleg i'r Cyflenwr.

'Gosod/Gosodiadau' - gosod y Nwyddau yn y lleoliad dynodedig ac yn yr amgylchedd gwaith a ddynodir gan y Coleg.

'Hawliau Eiddo Deallusol' - patentau, hawlfraint, hawliau dylunio cofrestredig neu anghofrestredig, modelau defnyddioldeb, nodau masnach (pa un ai a ydynt wedi'u cofrestru ai peidio), cronfeydd data, gwybodaeth gyfrinachol a hawliau eraill mewn perthynas ag eiddo deallusol ac eiddo diwydiannol neu gyffelyb neu hawliau cyfatebol sy'n bodoli o dan ddeddfau unrhyw wlad a phob hawl i wneud cais i gofrestru hawliau o'r fath, neu i'w cofrestru.

'Personél Allweddol' - unigolion wedi'u henwebu gan y Coleg sy'n bwysig i'r broses o gwblhau neu ddarparu'r Gwasanaethau.

'Y Gyfraith' - unrhyw ddeddf, statud, is-ddeddf, rheoliad, gorchymyn, polisi rheolaethol, canllaw neu god diwydiannol, rheol neu gyfarwyddyd llys neu ofynion unrhyw gorff rheoli, deddfwriaeth ddirprwyedig neu eilaidd neu rybudd gan unrhyw gorff rheoli.

'Archeb' - ar ffurflen archeb prynu'r Coleg neu drosodd, fel ag y bo'n briodol.

'Archeb Ddiwygiedig' - newid i archeb a gyhoeddwyd ac a awdurdodwyd gan y Coleg neu gyfres o newidiadau.

'Pecyn' - unrhyw fath o becyn gan gynnwys bagiau, cesys, carboiau, silindrau, drymiau, paletau, tanciau, wagenni a chynhwysyddion eraill.

'Data Personol' - yr ystyr a nodir yn Neddf Diogelu Data 1998.

'Safle' - y lleoliad / lleoliadau y mae angen y Nwyddau a'r Gwasanaethau.

'Cais' - yr ystyr a nodir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

'Gwasanaethau' - y gwasanaethau, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, unrhyw gyflenwadau, i'w darparu gan y Cyflenwr yn unol â'r contract ac fel ag y nodir yn y Fanyleb Gwasanaethau.

'Lefelau Gwasanaeth' - y lefelau perfformio a nodir yn y Fanyleb Gwasanaethau.

'Manyleb Gwasanaethau' - manyleb (neu ddisgrifiad) ar gyfer y Gwasanaethau, sy'n cael ei roi i'r Cyflenwr gan y Coleg.

'Manyleb' - unrhyw Fanyleb Nwyddau ynghyd ag unrhyw Fanyleb Gwasanaethau.

'Cyflenwr' - yr unigolyn neu'r cwmni sy'n gwerthu'r Nwyddau a'r / neu'r Gwasanaethau i'r Coleg.

'TUPE' - Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.

1.2 **Adeiladu.** O dan yr Amodau hyn, os nad yw gofynion y cyd-destun yn wahanol, bydd y rheolau canlynol yn cael eu gweithredu:

- (a) Mae **person/unigolyn** yn cynnwys bod dynol neu gorff corfforaethol neu anghorfforedig (pa un ai a oes iddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân neu beidio).
- (b) Mae cyfeiriad at barti yn cynnwys ei gynrychiolwyr personol, olynwyr neu aseiniaid a ganiateir.
- (c) Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad at statud neu ddarpariaeth o'r fath fel y'i diwygiwyd neu'i ail-ddeddfwyd. Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol, fel y'i diwygiwyd neu'i ail-ddeddfwyd.
- (d) Bydd unrhyw gymal a gyflwynir gan y geiriau **yn cynnwys, i gynnwys, yn enwedig** neu unrhyw fynegiant tebyg yn cael ei ddehongli fel un esboniadol ac ni fydd yn cyfyngu ar ystyr y geiriau blaenorol.
- (e) Mae cyfeiriad at **ysgrifennu** neu **ysgrifenedig** yn cynnwys ffacsys.

2. **Sail y contract**

2.1 Mae'r Archeb yn golygu cynnig gan y Coleg i brynu'r Nwyddau a / neu'r Gwasanaethau yn unol â'r Contract.

2.2 Bydd y Contract yn cynnwys unrhyw Newidiadau i Archeb, unrhyw Archeb, yr Amodau hyn a'r Fanyleb neu Manylebau. Mewn achos o wrthdaro rhwng y darpariaethau dyma'r drefn flaenoriaeth:

- (a) Unrhyw Newid i Archeb (mae pob Newid i Archeb yn cael blaenoriaeth dros archebion blaenorol)
- (b) Yr Archeb
- (c) Y Fanyleb neu'r Manylebau
- (d) Yr Amodau

2.3 Ystyrir bod yr Archeb wedi'i derbyn pan fydd:

- (a) y Cyflenwr yn derbyn yr Archeb yn ysgrifenedig; neu
- (b) pan fydd y Cyflenwr yn gweithredu mewn modd sy'n gyson a chyflenwi'r Archeb.
Ar y pwynt hwn bydd y Contract yn dod i fod.

2.4 Bydd yr holl amodau hyn yn berthnasol i gyflenwad Nwyddau a Gwasanaethau oni bai bod cyfeiriad penodol at y naill neu'r llall.

3. Rheoli'r Cytundeb

3.1 Bydd y Cyflenwr yn enwebu Rheolwr Cytundeb sydd ag awdurdod digonol i sicrhau bod y Lefelau Gwasanaeth gofynnol yn cael eu bodloni, bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i'r Contract a bod y gwaith yn cael ei gynnal yn unol â'r Fanyleb. Bydd hefyd yn rhagweithiol wrth gydlynw a chyfleu gorchmynion perthnasol ac yn gyfrifol am sicrhau cyswllt a chefnogaeth gyffredinol rhwng y Coleg a'r Cyflenwr. Rhaid i hyn gynnwys cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor ynghylch yr holl Nwyddau a werthir. Rheolwr y Cytundeb fydd y prif gyswllt rhwng y Cyflenwr a'r Coleg ac ystyrir unrhyw rybudd, neges, gwybodaeth neu gyfarwyddyd a roddir i neu a wneir gan Reolwr y Cytundeb fel un a roddwyd neu a wnaed gan y Cyflenwr. Cyfrifoldeb Rheolwr y Cytundeb fydd sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â'r Contract yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau.

4. Cyflenwi Nwyddau

4.1 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod y Nwyddau:

- (a) heb ddiffygion yn y dyluniad, y deunydd na'r gwneuthuriad, eu bod yn cyfateb i'w disgrifiad ac unrhyw Fanyleb Nwyddau berthnasol ac yn parhau felly am 12 mis ar ôl y Dyddiad Derbyn; a'u
- (b) bod o ansawdd derbynion (yn yr ystyr a roddir yn Neddff Gwerthiant Nwyddau 1979, fel y'i diwygiwyd) ac yn addas i unrhyw ddiben a nodir gan y Cyflenwr neu a wneir yn hysbys i'r Cyflenwr gan y Coleg un ai'n ffurfiol neu drwy oblygiad, ac yn hyn o beth mae'r Coleg yn dibynnu ar farn a gallu'r Cyflenwr; a'u
- (c) bod yn newydd (os na nodir yn wahanol ar yr Archeb Prynu) a heb ddiffygion yn y dyluniad, y deunydd na'r gwneuthuriad; ac yn
- (d) cydymffurfio ag unrhyw Ddeddfau perthnasol.

4.2 Bydd y cyflenwr yn gwarantu i'r Coleg y bydd y Nwyddau'n cael eu darparu:

- (a) mewn modd cywir, sgilgar a phroffesiynol.
- (b) gan nifer digonol o weithwyr cymwys, hyfforddedig a phrofiadol sy'n gweithredu i safonau uchel o ran sgiliau, gofal a diwydrwydd dyladwy ac yn unol ag Ymarfer Diwydiannol Da.
- (c) yn unol â'r Contract.
- (d) i safon resymol sy'n bodloni'r Swyddog Awdurdodedig.

4.3 Bydd y Cyflenwr yn gwarantu'r bydd Gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu perfformio gan weithwyr cymwys, hyfforddedig a phrofiadol sy'n gweithredu i safonau uchel o ran sgiliau, gofal a diwydrwydd dyladwy ac yn unol ag Arfer Diwydiannol Da.

4.4 Bydd y Cyflenwr yn gwneud iawn ar ei gost ei hun am unrhyw ddiffygion y mae'r Coleg yn eu canfod wrth ddefnyddio'r Nwyddau yn y modd cywir yn ystod y 12 mis cyntaf o ddefnydd neu 18 o ddyddiad eu Derbyn gan y Coleg, pa un bynnag sy'n dod i ben gyntaf. Gall diffygion o'r fath ddigwydd oherwydd bod rhywbeth o'i le ar ddyluniad y Nwyddau neu'r cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r Nwyddau neu fod deunydd y Nwyddau'n annigonol neu'n ddiffygiol neu fod y Nwyddau o wneuthuriad gwael neu unrhyw reswm arall sy'n torri rhwymedigaethau'r Cyflenwr un ai o ran y Contract neu'r gyfraith.

4.5 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau ei fod bob amser yn cynnal pob trwydded, caniatâd ac awdurdod sydd ei angen i gynnal ei rwymedigaethau o ran y Contract neu o ran y Cyflenwi neu'r Nwyddau.

4.6 Bydd atgyweiriadau neu amnewidiadau'n cael eu cwmpasu gan y Contract hwn am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad Derbyn gan y Coleg.

5. Cyflenwi Nwyddau

5.1 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod:

- (a) y Nwyddau wedi cael eu pecynnu'n iawn i gael eu cludo a'u storio heb gael eu difrodi a bod y label a'r cyfeiriad ar y pecyn yn glir ac yn ddarllenadwy. Ni fydd y Coleg yn gyfrifol am dalu am unrhyw becynnau neu gynhwysyddion y caiff y Nwyddau eu cyflenwi ynddynt. Rhaid i becynnau gael eu marcio'n glir i ddangos i bwy y maent yn perthyn. Y Cyflenwr fydd yn gyfrifol am y gost a'r risg o ddychwelyd unrhyw becynnu y mae angen ei gael yn ôl.
- (b) bydd pob cyflenwad o Nwyddau yn cynnwys nodyn cyflenwi sy'n dangos dyddiad yr Archeb, rhif Archeb y Coleg (os oes un), natur a nifer y Nwyddau (gan gynnwys rhif cod y Nwyddau, lle y bo'n briodol), cyfarwyddiadau storio arbennig (os oes rhai) ac, os yw'r Nwyddau'n cael eu cyflenwi fesul cyfran, nifer y Nwyddau sydd ar ôl i'w cyflenwi; ac

(c) os yw'r Cyflenwr am i'r Coleg ddychwelyd unrhyw ddeunyddiau pacio at y Cyflenwr, dylai hynny gael ei nodi'r glir ar y nodyn cyflenwi. Bydd unrhyw ddeunydd pacio o'r fath yn cael ei ddychwelyd at y Cyflenwr ar gost y Cyflenwr.

(d) ni chodir tâl am gyflenwi.

(e) bydd archebion gan fwy nag un cynhyrchwr yn cael eu casglu a'u cyflenwi i'r Colegau gyda'i gilydd, os na chafwyd cyfarwyddiadau eraill gan y Coleg, heb unrhyw gost ychwanegol.

5.2 Bydd y Cyflenwr yn cyflenwi'r Nwyddau:

(a) ar y dyddiad a nodir ar yr Archeb, neu, os nad oes dyddiad o'r fath wedi'i nodi, o fewn 30 diwrnod o Ddyddiad yr Archeb.

(b) i'r man cyflenwi a nodir ar yr Archeb, neu a nodwyd gan y Coleg cyn cyflenwi ("Lleoliad Cyflenwi"); ac

(c) yn ystod oriau gwaith arferol y Coleg, neu fel y nodwyd gan y Coleg.

(d) i leoliadau a all gynnwys lleoliadau heb lifft nad ydynt ar y llawr gwaelod heb unrhyw gost ychwanegol ac

(e) i fwy nag un safle ar gais y Coleg heb unrhyw gost ychwanegol.

5.3 Mae Amser Cyflenwi yn hanfodol i'r Contract.

5.4 Pan fo'r Nwyddau'n cael eu cyflenwi gan y Cyflenwr, bydd y cyflenwi'n digwydd pan fo'r Nwyddau'n cael eu tynnu o'r cerbyd cludo a'u cyflenwi'n unol â'r Cyfarwyddiadau Cyflenwi. Pan fo'r Nwyddau'n cael eu casglu gan y Coleg, bydd y cyflenwi'n digwydd pan fyddant yn cael eu llwytho ar gerbyd y Coleg.

5.5 Bydd y rheolau rhyngwladol ar gyfer dehongli telerau masnach a baratowyd gan y Siambr Fasnach Ryngwladol (Incoterms) yn berthnasol, ond os byddant yn gwrthdaro â'r Contract, y Contract fydd drechaf.

5.6 Os bydd y Cyflenwr:

(a) yn cyflenwi llai na [95]% o'r Nwyddau a archebwyd, gall y coleg wrthod y Nwyddau; neu

(b) os bydd yn cyflenwi dros [105]% o'r Nwyddau a archebwyd, gall y Coleg ddewis gwrthod y Nwyddau neu'r Nwyddau gormodol, a bydd unrhyw Nwyddau a wrthodir yn cael eu dychwelyd ar gost a risg y Cyflenwr. Os bydd y Cyflenwr yn cyflenwi mwy o'r Nwyddau, neu lai ohonynt, nag a archebwyd, a bod y Coleg yn derbyn yr archeb, bydd addasiad pro rata yn cael ei wneud i'r anfoneb am y Nwyddau.

5.7 Ni fydd y Cyflenwr yn cyflenwi'r Nwyddau fesul cyfran heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Coleg. Pan fo cytundeb i gyflenwi'r Nwyddau fesul cyfran, gellir anfonebu a thalu amdanynt ar wahân. Fodd bynnag, gall anallu ar ran y Cyflenwr i gyflenwi unrhyw un o'r cyfrannau ar amser, neu i'w cyflenwi o gwbl, neu unrhyw ddiffyg mewn cyfran roi'r hawl i'r Coleg i'r mesurau cywiro a nodir yng nghymal 21.

5.8 Os na nodir yn wahanol yn y Contract, bydd cyflenwi yn cynnwys llwytho i fyny neu stacio'r Nwyddau gan y Cyflenwr mewn mannau a nodir gan Aelodau'r Sefydliad.

5.9 Ni fydd rhyddhau derbynneb am y Nwyddau yn golygu unrhyw gydnabyddiaeth gan y Coleg o gyflwr neu natur y Nwyddau hynny. Ni fernir bod y Coleg wedi derbyn unrhyw Nwyddau os nad yw hyn yn unol â chymal 6.

5.10 Os bydd y Cyflenwr ar unrhyw adeg yn dod yn ymwybodol o unrhyw weithred neu anwaith, neu weithred neu anwaith arfaethedig, gan y Coleg sy'n rhwystro'r Cyflenwr rhag cyflenwi'r Nwyddau a'r Gwasanaethau'n unol â'r Contract, bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Coleg yn ysgrifenedig.

6. Derbynn

6.1 Bydd gan y Coleg yr hawl i wrthod y Nwyddau a'r Gwasanaethau yn rhannol neu'n gyfan gwbl, pa un ai a dalwyd amdanynt yn llawn neu'r rhannol, o fewn cyfnod rhesymol o'r dyddiad cyflenwi os nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Contract.

7. Nwyddau Traul

7.1 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i gaffael nwyddau traul i gael eu defnyddio gyda'r Nwyddau un ai gan y Cyflenwr neu o ffynhonnell arall a ystyrir yn briodol gan y Coleg. Ni fydd caffael nwyddau traul o'r fath o ffynhonnell ar wahân i'r Cyflenwr yn dirymu hawliau'r Coleg o dan y Contract ac ni fydd yn effeithio ar y darpariaethau parthed gwarantau a roddir yn y Contract neu a ddarperir fel arall bod y nwyddau traul a ddefnyddir i fodloni'r safonau gofynnol a gyhoeddir gan Gyflenwr neu Gynhyrchwr y Nwyddau, neu os nad oes safonau cyhoeddedig ar gael, y safonau a dderbynnir yn gyffredinol fel rhai priodol ar gyfer y nwyddau traul i'w defnyddio gyda'r Nwyddau o dan sylw.

7.2 Pe bai'r Cyflenwr yn honni bod defnyddio nwyddau traul penodol yn cael effaith niweidiol ar safon perfformiad y Nwyddau ac / neu'n cynyddu'r gost i'r Cyflenwr fodloni ei rwymedigaethau i atgyweirio neu gynnal a chadw'r Nwyddau bydd rhaid i'r Cyflenwr brofi nad yw'r nwyddau traul yn bodloni'r safonau gofynnol, a'u bod yn effeithio ar y nwyddau a / neu'n cynyddu costau'r Cyflenwr. Os bydd y Cyflenwr yn profi na yw'r nwyddau traul yn bodoli'r safonau gofynnol, bydd y Coleg yn peidio â defnyddio'r nwyddau traul dan sylw ac yn caffael nwyddau traul eraill sy'n bodloni'r safonau gofynnol.

8. Cynnal a Chadw

8.1 Os yw hynny'n ofynnol gan y Coleg bydd y Cyflenwr yn ymrwymo i gontract ar wahân ar gyfer cynnal a chadw'r Nwyddau ar yr un telerau fwy neu lai â'r rhai a nodwyd yn y Contract.

9. Darnau Sbâr

9.1 Bydd y Cyflenwr yn darparu i'r Coleg, neu unrhyw drydydd parti cynnal a chadw a enwebwyd, ar gais, o fewn cyfnod rhesymol ac ar brisiau rhesymol, unrhyw ddarnau sbâr a darnau amnewid ar gyfer y Nwyddau sydd eu hangen ar y Coleg.

9.2 Bydd y Cyflenwr yn cadw cyflenwad o ddarnau sbâr neu ddarnau amnewid am gyfnod o saith (7) mlynedd o'r dyddiad cyflenwi neu'r Dyddiad Derbyn, pa un bynnag yw'r mwyaf diweddar.

9.3 Bydd darnau sbâr neu ddarnau amnewid o'r fath yn gwbl gydnaws â, ac yn cynnal o leiaf yr un lefel o berfformiad â'r Nwyddau a gyflenwyd yn wreiddiol, ond nid oes rhaid iddynt fod yr un fath yn union â'r eitemau hynny.

9.4 Os, yn ystod y cyfnod a nodir yng nghymal 9.2, y bydd y Cyflenwr neu is-gontractwr y Cyflenwr yn bwriadu rhoi'r gorau i gynhyrchu darnau sbâr neu ddarnau amnewid ar gyfer y Nwyddau bydd y Cyflenwr yn rhoi rhybudd ar unwaith i'r Coleg o fwiad o'r fath ac yn cynnig cyflenwi i'r Coleg drwydded barhaol, anghyfyngedig, byd-eang a heb freindal i ddefnyddio unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol o ran dyluniadau, lluniadau ac unrhyw eitemau sy'n angenrheidiol i'r Coleg allu caffael darnau sbâr gan unrhyw drydydd parti.

10. Llawlyfrau Gweithredu

10.1 Bydd y Cyflenwr yn darparu i'r Coleg yr holl lawlyfrau gweithredu a'r dogfennau eraill sydd eu hangen i allu defnyddio'r Nwyddau yn foddhaol. Os, ar ôl y Dyddiad Derbyn, y bydd y llawlyfrau gweithredu a'r dogfennau angen eu diweddarau neu'u hamnewid bydd y Cyflenwr yn gyfrifol am hysbysu'r Coleg bod diweddariadau neu amnewidiadau ar gael ac yn eu darparu am brisiau rhesymol ar ôl derbyn cais ysgrifenedig. Bydd y Cyflenwr yn darparu'r llawlyfrau gweithredu a'r dogfennau eraill ar y ffurf y maent ar gael ynddo ar yr adeg briodol.

11. Ychwanegu at y Nwyddau

11.1 Bydd gan y Coleg yr hawl i ychwanegu at y Nwyddau, neu osod yn neu ar y Nwyddau, unrhyw eitemau neu nwyddau eraill (gan gynnwys meddalwedd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) y mae'r Coleg yn eu hystyried yn briodol i gael y defnydd gorau bosibl ohonynt. Os bydd y Coleg yn ychwanegu neu osod eitemau neu nwyddau o'r fath ni fydd hyn yn cael yr effaith o israddio perfformiad y Nwyddau ac ni fydd yn rhyddhau'r Cyflenwr o'i rwymedigaethau o dan y Contract cyn belled â bod:

- (a) y nwyddau a ychwanegir neu a osodir heb gael eu nodi yn unrhyw un o fanylebau cyhoeddus y Cyflenwr a'r/neu'r cynhyrchwr fel rhai sy'n cael yr effaith o israddio safon perfformiad neu'n dirymu hawliau'r coleg o dan y Contract; a
- (b) bod y Cyflenwr heb hysbysu'r Coleg yn ysgrifenedig fel arall bod ychwanegu neu osod nwyddau penodol yn israddio'r safonau perfformiad neu'n dirymu hawliau'r Coleg o dan y Contract; a
- (c) bod y nwyddau wedi cael eu hychwanegu neu'i gosod yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyflenwr.

11.2 Pe bai ychwanegiadau a neu/osodiadau yn cael eu gwneud gan y Coleg a bod y Cyflenwr yn gallu profi bod ychwanegiad neu osodiad o'r fath yn amharu ar safon perfformio'r Nwyddau, yna bydd gan y Cyflenwr hawl i gael ad-daliad am unrhyw gostau uniongyrchol cysylltiedig y gall y Cyflenwr ddangos eu bod yn rhesymol ac yn angenrheidiol er mwyn dychwelyd y Nwyddau i'r safon perfformio arferol yn unol â'r Contract hwn o ganlyniad uniongyrchol i ychwanegiad neu osodiad a wnaed gan y Coleg (ac eithrio pan wnaed ychwanegiad neu osodiad o'r fath gyda chymeradwyaeth y Cyflenwr).

12 Hyfforddi

12.1 Lle y bo'n briodol, bydd y Pris yn cynnwys cost hyfforddi gweithwyr y Coleg sut i ddefnyddio'r Nwyddau; bydd cyfarwyddiadau o'r fath yn unol â gofynion y Contract.

13 Nwyddau Peryglus a Diogelwch

- 13.1 Pan fo'r Nwyddau yn cynnwys sylweddau sy'n beryglus i iechyd, bydd y Cyflenwr yn darparu i'r Coleg, un ai cyn neu wrth Gyflenwi, yr holl ddata sydd ei angen i alluogi'r Coleg i gynnal asesiad addas a digonol o'r risgiau cysylltiedig, a'r camau sydd angen eu cymryd i fodloni gofynion y holl Ddeddfau perthnasol.

14 Cyflenwi Gwasanaethau

- 14.1 O'r dyddiad a nodir ar yr Archeb ac ar hyd cyfnod y Contract hwn, bydd y Cyflenwr yn darparu'r Gwasanaethau i'r Coleg yn unol â thelerau'r Contract hwn.
- 14.2 Bydd y Cyflenwr yn cyrraedd unrhyw ddyddiadau cyflenwi ar gyfer y Gwasanaethau a nodir yn yr Archeb neu yr hysbysir y Cyflenwr amdanynt gan y Coleg.
- 14.3 Wrth ddarparu'r Gwasanaethau, bydd y Cyflenwr yn:
- (a) cydweithio â'r Coleg ar bob mater sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau, ac yn cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau'r Coleg;
 - (b) perfformio'r Gwasanaethau i'r safonau uchaf o ran sgiliau, gofal a diwydrwydd dyladwy yn unol ag Ymarfer Diwydiannol Da;
 - (c) defnyddio gweithwyr sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad i berfformio'r tasgau a roddwyd iddynt, a bod nifer digonol ohonynt i gyflawni rhwymedigaethau'r Cyflenwr yn unol â'r Contract hwn;
 - (d) sicrhau bod y Gwasanaethau a'r Derbyniad yn cydymffurfio â'r holl ddisgrifiadau a'r manylebau a nodir ym Manyleb y Gwasanaeth, a bod y Derbyniadau yn addas ar gyfer unrhyw bwrpas a wneir yn hysbys i'r Cyflenwr gan y Coleg un ai'n ffurfiol neu drwy oblygiad;
 - (e) darparu'r holl offer, cyfarpar a cherbydau ac unrhyw eitemau eraill o'r fath sydd eu hangen i ddarparu'r Gwasanaethau;
 - (f) defnyddio nwyddau, deunyddiau, safonau a thechnegau o'r ansawdd gorau, a sicrhau nad yw'r Derbyniadau, na'r nwyddau a'r deunyddiau a gyflenwir ac a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau neu eu cludo i'r Coleg yn ddiffygiol o ran gwneuthuriad, gosodiad na dyluniad;
 - (g) sicrhau a chynnal bob amser pob trwydded a chaniatâd angenrheidiol a chydymffurfio â phob Deddf berthnasol;
 - (h) cadw at holl reolau a rheoliadau iechyd a diogelwch ac unrhyw ofynion diogelwch sy'n berthnasol ar unrhyw un o Safleoedd y Coleg;
 - (i) cadw'r holl ddeunyddiau, offer a chyfarpar, lluniadau, manylebau a data a gyflenwyd gan y Coleg i'r Cyflenwr ("Deunyddiau'r Coleg") yn ddiogel ar ei risg ei hun a chadw Deunyddiau'r Coleg mewn cyflwr da hyd nes y dychwelir hwy i'r Coleg a pheidio â gwaredu na defnyddio Deunyddiau'r Coleg os na wneir hynny'n unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu awdurdod; a
 - (j) pheidio ag anghofio gwneud rhywbeth a allai beri i'r Coleg golli trwydded, awdurdod neu ganiatâd mae'n dibynnu arno er dibenion busnes, ac mae'r Cyflenwr yn cydnabod y gall y Coleg ddibynnu neu weithredu ar y Gwasanaethau.
 - (k) darparu'r Gwasanaethau drwy Weithwyr Allweddol (os oes rhai) na fydd yn cael eu rhyddhau rhag darparu'r Gwasanaethau i'r Coleg, ac eithrio am resymau'n ymwneud â salwch, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, terfynu cyflogaeth neu am eu bod wedi cael cais i wneud hynny gan y Coleg, neu fod yr elfen o'r Gwasanaeth yr oedd yr unigolyn yn gyfrifol amdano wedi ei gwblhau i safon sydd wrth fodd y Coleg neu amgylchiadau lliniarol eraill a gaiff eu hegluro i'r Coleg. Bydd unrhyw newidiadau yn y Gweithwyr Allweddol yn amodol ar gytundeb y Coleg a bydd newidiadau o'r fath o leiaf o statws cyfartal neu'n meddu ar brofiad a sgiliau cyfwerth â'r Gweithwyr Allweddol y cymerir eu lle ac yn addas ar gyfer yr un cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gwasanaethau. Y Cyflenwr fydd yn gyfrifol am y gost o gyflawni newidiadau o'r fath; a
 - (l) darparu Gwasanaethau o'r fath i safon resymol sy'n bodloni'r Swyddog Awdurdodedig.

15 Cynnydd ac Archwilio

- 15.1 Bydd y Cyflenwr yn darparu ar ei gost ei hun unrhyw raglenni ar gyfer cyflenwi'r Nwyddau a'r Gwasanaethau y mae'n rhesymol i'r Coleg ofyn amdanynt.
- 15.2 Bydd y Cyflenwr yn ysgrifennu i hysbysu'r Coleg ar unwaith os bydd oediad, neu bosiblwydd o oediad, yn y cynhyrchu.

- 15.3 Bydd gan y Coleg yr hawl i wirio cynnydd yng nghyfleusterau neu swyddfeydd cynhyrchu'r Cyflenwr (gan gynnwys gweithio o gartref) neu swyddfeydd (gan gynnwys gweithio o gartref) isgontractwyr y Cyflenwr ar unrhyw adeg resymol ac i wrthod unrhyw Nwyddau neu Wasanaethau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Contract. Bydd isgontractau'r Cyflenwr yn cadw hawliau o'r fath i'r Coleg.
- 15.4 Ni fydd archwiliad neu gymeradwyaeth yn rhyddhau'r Cyflenwr o'i rwymedigaethau o dan y Contract.

16 Darparu Nwyddau a Gwasanaethau oddi ar y Safle

- 16.1 Mae'r Coleg yn cydnabod y gall rhai neu'r cyfan o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau gael eu darparu o safle neu safleoedd (gan gynnwys gweithio o gartref) ac eithrio rhai'r Cyflenwr a'i isgontractwyr. Mewn amgylchiadau lle mae'r Nwyddau a'r Gwasanaethau, neu ran o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau, yn cael eu darparu o safle neu safleoedd o'r fath bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio â'r gofynion a ganlyn fel ag y bo'n briodol:
- (a) lle bynnag y bo'n bosibl, rhoi o leiaf wythnos o rybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Awdurdodedig am waith oddi ar y safle gan nodi'r rhesymau am waith o'r fath, yr adnoddau dynol (gan gynnwys enw, safle a rôl) a ddefnyddir a'r allbwn y mae pob gweithiwr yn gyfrifol amdano.
 - (b) cynorthwyo'r Swyddog Awdurdodedig i gysylltu â phob un o'r gweithwyr gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, rif ffôn a / neu gyfeiriadau e-bost er mwyn gwirio bod y Nwyddau a'r Gwasanaethau'n cael eu darparu.
 - (c) sicrhau bod gan yr holl anfonebau a gyflwynir daflenni cymeradwyo dyddiol wedi'u llofnodi a'u hawdurdodi i gadarnhau'r manylion fel yng nghymal 16.1 (a) uchod.
 - (d) rhoi hawl i'r Swyddog Awdurdodedig neu ei enwebai archwilio a phrofi unrhyw ddulliau, amserlenni, cyfrifiadau, dadansoddiadau, deunyddiau, offer, adroddiadau neu ddogfennau gwaith a ddefnyddir neu sydd i gael eu defnyddio mewn perthynas â chyflawni'r Gwasanaethau.
- 16.2 Bydd methiant y Cyflenwr i gydymffurfio ag amodau'r cymal hwn (16) yn rhoi'r hawl i'r Coleg beidio â thalu am y Nwyddau a'r Gwasanaethau a ddarperir oddi ar y safle.
- 16.3 Nid yw methiant y Coleg i archwilio neu ei fethiant i ganfod neu wrthod unrhyw ran ddiffygiol o'r Nwyddau neu Wasanaethau yn cael ei ystyried i olygu ei fod yn eu derbyn ac nid yw mewn unrhyw fodd yn rhyddhau'r Cyflenwr o'i gyfrifoldebau o dan y Contract.

17 Gwaith ar y Safle

- 17.1 Os yw'r Contract yn golygu bod y Cyflenwr yn cyflenwi, gosod neu gyflawni Nwyddau neu Wasanaethau ar y Safle yna bydd y cymalau a ganlyn yn berthnasol:
- (a) Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod y Cyflenwr a'i weithwyr cyflogedig, isgontractwyr a'u gweithwyr cyflogedig ac unrhyw rai eraill sy'n gysylltiedig â'r Cyflenwr yn cadw at y rhwymedigaethau a osodir ar y Cyflenwr gan Ddeddfau perthnasol ym mhob ffordd.
 - (b) Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod y Cyflenwr a'i weithwyr cyflogedig, isgontractwyr a'u gweithwyr cyflogedig ac unrhyw rai eraill sy'n gysylltiedig â'r Cyflenwr yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau neu bolisiau y gall y Coleg hysbysu'r Cyflenwr amdanynt yn ysgrifenedig.
 - (c) Pan fo angen, bydd y Cyflenwr a'i weithwyr cyflogedig, isgontractwyr a'u gweithwyr cyflogedig yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion diogelwch gan gynnwys hawl i chwilio wrth fynd a dod o'r Safle. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i symud o'r Safle unrhyw rai a amheuir o fod o dan ddylanwad alcohol neu unrhyw sylwedd sy'n amharu ar berfformiad.
- 17.2 Ni fydd y Cyflenwr yn cyflenwi unrhyw ddeunyddiau, peiriannau nac unrhyw beth arall nac yn dechrau unrhyw waith ar y Safle heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Coleg.
- 17.3 Ni fydd mynediad i'r safle wedi'i gyfyngu i'r Cyflenwr, ond sicheir y bydd yn gallu cyflawni'r Contract tra bydd eraill yn gweithio. Bydd y Cyflenwr yn cydweithredu ag eraill yn unol â gofynion rhesymol y Coleg.
- 17.4 Bydd gan y Coleg y pŵer ar unrhyw adeg yn ystod y Contract i orchymyn yn ysgrifenedig:
- (a) bod unrhyw ddeunyddiau sydd ym marn y Coleg yn un ai'n beryglus neu'n anghyson â'r Contract yn cael eu symud oddi ar y Safle, a/neu;
 - (b) bod deunyddiau cywir neu addas yn cael eu defnyddio, a/neu;

- (c) symud neu ailgyflawni unrhyw waith neu Nwyddau a Gwasanaethau nad ydynt, er gwaethaf unrhyw brofion blaenorol neu daliadau interim, ym marn y Coleg yn unol â'r Contract.
- 17.5 Ar ôl cwblhau'r Contract bydd y Cyflenwr yn symud eu peiriannau a'u hoffer ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau na chafodd eu defnyddio ac yn clirio'r Safle o unrhyw sbwriel sy'n deillio o'r Contract ac yn gadael y Safle mewn cyflwr glân a thaclus o fewn yr amserlen a roddodd y Coleg i'r Cyflenwr.
- 17.6 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod eu gweithwyr cyflogedig, eu hisgontractwyr a'u gweithwyr cyflogedig ac unrhyw rai eraill sy'n gysylltiedig â'r Cyflenwr yn gwisgo'n briodol. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i symud o'r Safle unrhyw rai nad ydynt, yn ôl disgrisiwn absoliwt y Coleg, yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.
- 17.7 Bydd unrhyw dir neu Safleoedd a ddarperir i'r Cyflenwr gan y Coleg o bryd i'w gilydd mewn perthynas â'r Contract, yn cael ei ddarparu i'r Cyflenwr ar sail anghyfngedig ac yn ddi-dâl ac yn cael ei ddefnyddio gan y Cyflenwr er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract yn unig. Bydd y Cyflenwr yn cael defnyddio tir neu Safle o'r fath fel trwyddedai a bydd yn ei adael pan fydd y Contract yn cael ei gwblhau, ei derfynu neu'i ddileu.
- 17.8 Bydd y Cyflenwr yn cyfyngu mynediad i'r tir neu'r Safle i weithwyr sy'n angenrheidiol iddo allu cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.
- 17.9 Mae'r Cyflenwr yn cytuno nad oes bwriad ar ran y Coleg i greu tenantiaeth o unrhyw fath er budd y Cyflenwr na'i weithwyr ac nad oes unrhyw denantiaeth o'r fath wedi dod i fod, neu am ddod i fod, er gwaethaf unrhyw hawliau a roddwyd yn unol â'r Contract. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl ar unrhyw adeg i ddefnyddio unrhyw Safle sy'n perthyn iddo neu yn ei feddiant mewn unrhyw fodd a ystyrir yn addas ganddo.
- 17.10 Pan fo'r Cyflenwr yn cael ei gyflogi i ffitio neu osod y Nwyddau, mae'r Cyflenwr yn rhoi gwarant ychwanegol i'r Coleg y bydd y gwaith yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliadau Adeiladu (Cynllunio a Rheoli) 2015 ac unrhyw reoliadau neu ganllawiau eraill sydd wedi cael eu rhoi, neu a fydd yn cael eu rhoi, gan Weithgor Iechyd a Diogelwch y DU neu unrhyw gorff llywodraethol neu gorff gymwys arall sy'n ymwneud â'r math o waith sydd i'w gynnal gan y Cyflenwr, gan gynnwys gallu'r sawl sy'n gosod (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Adeiladu ((Cynllunio a Rheoli)) 2015), a bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a chanllawiau o'r fath. Yn benodol, bydd y Cyflenwr yn:
- (a) cynllunio, trefnu a chynnal y Gwaith sydd wedi'i Gontractio (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Adeiladu ((Cynllunio a Rheoli)) 2015) mewn modd sy'n rhoi sylw i iechyd a diogelwch pob unigolyn sy'n dod i'r Safle (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Adeiladu ((Cynllunio a Rheoli)) 2015), neu sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r Gwaith sydd wedi'i Gontractio;
 - (b) cyflogi gweithwyr neu isgontractwyr sy'n meddu ar sgiliau a hyfforddiant priodol ar gyfer y gwaith sydd i'w gyflawni ganddynt ar y Gwaith sydd wedi'i Gontractio;
 - (c) Arolygu a goruchwyllo'r gwaith a wneir a'r dulliau a ddefnyddir gan weithwyr neu isgontractwyr i berfformio'r tasgau sydd eu hangen i gyflawni'r Gwaith sydd wedi'i Gontractio;
 - (d) Gweithio ar y cyd â'r Coleg a phartion eraill ar y Safle er mwyn i'r Gwaith sydd wedi'i Gontractio gael ei gwblhau'n ddiogel ac yn gywir; a
 - (e) cyn i'r Cyflenwr ddechrau ar y Gwaith sydd wedi'i Gontractio, cynnal yr holl asesiadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch unigolion sy'n ddisgwyliedig ac yn rhesymol yng nghyd-destun y Gwaith sydd wedi'i Gontractio.

18 Amrywiadau ac Amnewidiadau

- 18.1 Bydd gan y Coleg yr hawl, cyn cyflenwi, i anfon Archeb Ddiwygiedig i'r Cyflenwr er mwyn ychwanegu at y gofynion neu eu dileu neu'u haddasu. Os bydd Archeb Ddiwygiedig yn peri newid i'r pris, neu'r Dyddiad Cyflenwi yna bydd rhaid i'r Cyflenwr stopio cyflawni'r Contract a hysbysu'r Coleg ar unwaith gan gyfrifo'r pris newydd a'r Dyddiad Cyflenwi ar unwaith ar yr un lefel gost ac elw â'r pris gwreiddiol. Rhaid i'r Cyflenwr roi o leiaf 10 diwrnod gwaith i'r Coleg i ystyried y pris newydd neu Ddyddiad Cyflenwi. Bydd yr Archeb Ddiwygiedig yn dod i rym pan

fydd y Swyddog Awdurdodedig yn ei dderbyn yn ysgrifenedig. Yn amodol ar ddarpariaethau eraill y Contract, os bydd y Swyddog Awdurdodedig yn methu â chadarnhau'r Archeb Ddiwygiedig o fewn yr amser a nodwyd, yna bydd y gwaith o gyflawni'r Contract yn aildechrau ar unwaith fel pe na bai'r Archeb Ddiwygiedig wedi'i chyhoeddi.

19 Cydymffurfio â Deddfau perthnasol

- 19.1 Bydd y Cyflenwr bob amser (heb unrhyw gost ychwanegol i'r Coleg) yn paratoi, cynhyrchu, cyflenwi, gosod, a chyflawni'r Nwyddau a'r Gwasanaethau yn unol â phob Deddf. Bydd y Cyflenwr yn cadw unrhyw gofnodion sydd eu hangen yn unol â Deddfau o'r fath ac ar gais yn eu cyflwyno i'w harchwilio yn syth gan unrhyw awdurdod perthnasol sydd â'r hawl i'w harchwilio a gan y Coleg (neu ei gynrychiolydd awdurdodedig).
- 19.2 Ni fydd y Cyflenwr yn cael ei ryddhau o'i rwymedigaeth i gyflenwi'r Nwyddau a'r Gwasanaethau yn unol â thelerau'r Contract nac yn cael yr hawl i godi'r pris o ganlyniad i addasiadau i'r Deddfau.
- 19.3 Heb ymrwymiad i gymal 19.2, bydd y Cyflenwr yn monitro ac yn hysbysu'r Coleg yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau i'r Deddfau a all effeithio ar y Nwyddau a'r Gwasanaethau ac yn darparu'r Coleg â manylion y mesurau mae'n bwriadu eu cymryd a'r newidiadau mae'n bwriadu eu gwneud i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau o'r fath.
- 19.4 Bydd y Cyflenwr yn ymgynghori â'r Coleg (a lle bynnag ag y bo'n bosibl yn cytuno â'r Coleg ar ffurf, dull ac amseru'r newidiadau mae'n bwriadu eu gwneud i fodloni unrhyw newidiadau mewn Deddfau pe byddent yn effeithio ar y Nwyddau a'r Gwasanaethau. Ni fydd y Cyflenwr yn rhoi unrhyw newid ar waith, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Coleg, a fyddai'n amharu ar allu'r Cyflenwr i gyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau yn unol â'r fanyleb.
- 19.5 Heb ymrwymiad i weddill cymal 19, bydd y Cyflenwr yn gwneud pob ymdrech resymol i leihau'r amhariad a achosir gan unrhyw newidiadau yn y Deddfau perthnasol a gyflwynir yn unol â'r cymal 19 hwn.
- 19.6 Deddf yr Iaith Gymraeg
Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (neu fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd) a phob deddfwriaeth a gofynion statudol eraill.

20 Gwella Gwasanaethau ac Adnewyddu Technoleg

- 20.1 Bydd y Cyflenwr yn cyflwyno ar ei gost ei hun adroddiad i'r Coleg o fewn 60 diwrnod i ddiwedd pob blwyddyn dros dymor y Contract a fydd yn nodi technolegau a phrosesau newydd sy'n datblygu a allai wella'r Nwyddau a'r Gwasanaethau. Bydd adroddiad o'r fath yn ddigon manwl i alluogi'r Coleg i werthuso manteision y technolegau neu'r prosesau newydd yn iawn.
- 20.2 Os bydd y Coleg neu'r Awdurdod Contractio yn dymuno cynnwys unrhyw welliannau a nodwyd gan y Cyflenwr yn unol â chymal 20.1, bydd y partiön yn trafod gweithredu'r newid cysylltiedig gan gymryd bob amser bod costau'r Cyflenwr am gyflenwi'r Nwyddau a'r Gwasanaethau'n lleihau o ganlyniad i unrhyw newid a weithredir gan y Coleg; bydd 25% o'r arbedion cost yn cael eu trosglwyddo i'r Coleg ar ffurf gostyngiad canlyniadol ac uniongyrchol ym mhreis y Nwyddau a'r Gwasanaethau.

21 Rhwymedïau

- 21.1 Os bydd y Cyflenwr yn methu â chyflenwi'r Nwyddau ar y Dyddiad Cyflenwi a/neu gyflawni'r Gwasanaethau erbyn y dyddiad perthnasol, neu os nad yw'r Nwyddau yn cydymffurfio â'r ymrwymïadau a nodir yng nghymal 4, neu os nad yw'r Gwasanaethau'n cydymffurfio â chymal 14, yna, heb gyfyngu ar unrhyw un o'i hawliau neu rwymedïau eraill, bydd gan y Coleg yr hawl i un neu ragor o'r rhwymedïau a ganlyn:
 - (a) i derfynu'r Contract ar unwaith;
 - (b) i wrthod y Nwyddau neu'r gwasanaethau (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) ac (yn achos Nwyddau) eu dychwelyd i'r Cyflenwr ar gost a risg y Cyflenwr;
 - (c) i ofyn i'r Cyflenwr ail-wneud, atgyweirio neu amnewid y Nwyddau neu Wasanaethau a wrthodir, neu ddarparu ad-daliad llawn o bris y Nwyddau neu Wasanaethau a wrthodwyd (os talwyd amdanynt);
 - (d) i wrthod derbyn unrhyw berfformiad dilynol o'r Gwasanaethau a/neu gyflenwad o'r Nwyddau y ceisia'r Cyflenwr ei wneud;
 - (e) i adfer gan y Cyflenwr unrhyw gostau a gafwyd gan y Coleg wrth gael nwyddau a/neu wasanaethau eraill gan drydydd parti; ac i
 - (f) hawlio iawndal am unrhyw gostau eraill, colledion neu dreuliau a gafwyd gan y Coleg y gellir eu priodoli i fethiant y Cyflenwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

- 21.2 Bydd y Contract yn berthnasol i unrhyw wasanaethau adfer neu amnewid a/neu nwyddau a amnewidiwyd neu a atgyweiriwyd gan y Cyflenwr.
- 21.3 Bydd y Cyflenwr yn digolledu'r Coleg yn llawn yn erbyn holl gostau, treuliau, iawndaliadau a cholledion (pa un ai'n uniongyrchol neu anuniongyrchol), gan gynnwys unrhyw logau, cosbau a chostau cyfreithiol a phroffesiynol eraill a ddyfernir yn erbyn y Coleg neu a delir gan y Coleg o ganlyniad i neu mewn cysylltiad â:
- (a) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn y Coleg am drosedd neu drosedd honedig yn erbyn Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti sy'n deillio o, neu'n gysylltiedig â, chynhyrchu, cyflenwi neu ddefnyddio'r Nwyddau, neu dderbyn, defnyddio neu gyflenwi'r Gwasanaethau;
 - (b) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn y Coleg gan drydydd parti sy'n deillio o, neu sy'n gysylltiedig â, chyflenwi'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau, i'r graddau bod hawliad o'r fath yn deillio o dorri'r Contract, neu esgeulustod neu fethiant neu oediad wrth gyflawni'r Contract gan y Cyflenwr, ei weithwyr cyflogedig, asiantau neu isgcontractwyr; a
 - (c) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn y Coleg gan drydydd parti am farwolaeth, niwed personol neu ddifrod i eiddo sy'n deillio o, neu mewn cysylltiad â, diffygion yn y Nwyddau neu'r Gwasanaethau, i'r graddau bod y diffyg yn y Nwyddau neu'r Gwasanaethau i'w briodoli i weithredoedd neu esgeulustod y Cyflenwr, ei weithwyr cyflogedig, asiantau neu isgcontractwyr.
 - (d) darparu'r Nwyddau a'r Gwasanaethau, gan gynnwys cynghorion ac argymhellion a wnaed ac a dderbyniwyd gan y Coleg a
 - (e) unrhyw Osodiad a/neu unrhyw Nwyddau a Gwasanaethau a/neu gyngor a roddwyd neu unrhyw beth a wnaed neu a hepgorwyd o dan y Contract, neu mewn cysylltiad â'r Contract, gan y Cyflenwr; a
 - (f) unrhyw ddifrod i eiddo neu Safle'r Coleg (gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau, offer neu batrymau a anfonwyd i'r Cyflenwr ar gyfer unrhyw ddiben).
- Bydd y cymal hwn (21.3) yn parhau wedi i'r Contract ddod i ben.
- 21.4 Mae hawliau a rhwymedïau'r Coleg o dan y Contract yn ychwanegol i'r hawliau a'r rhwymedïau sy'n rhan o statudau a chyfraith gyffredin.
- 21.5 Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau yswiriant digonol i gwmpasu'r risgiau a nodir yn y Contract am gyfnod o 6 blynedd wedi hynny, ac ym mhob achos bydd yn sicrhau:
- (a) Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch o ddim llai na phum miliwn o bunnoedd (£5,000,000) ar gyfer un hawliad, neu gyfres o hawliadau, a all godi oni nodir yn wahanol yn nogfennau tendro'r Contract; a
 - (b) Yswiriant Atebolrwydd Proffesiynol o ddim llai na phum miliwn o bunnoedd (£5,000,000) ar gyfer un hawliad, neu gyfres o hawliadau, a all godi oni nodir yn wahanol yn nogfennau tendro'r Contract; a
 - (c) Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o ddim llai na phum miliwn o bunnoedd (£5,000,000) ar gyfer un hawliad, neu gyfres o hawliadau, a all godi oni nodir yn wahanol yn nogfennau tendro'r Contract.
 - (d) Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr o ddim llai na deng miliwn o bunnoedd (£10,000,000) ar gyfer un hawliad, neu gyfres o hawliadau, a all godi oni nodir yn wahanol yn nogfennau tendro'r Contract.
- 21.6 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau'r yswiriannau a nodir yn y cymal hwn (21) gyda chwmni yswiriant dibynadwy ac ar gais y coleg bydd yn darparu tystiolaeth o'r polisi neu'r polisiâu yswiriant a'r taliadau premiwm.
- 21.7 Bydd methiant y Cyflenwr i sicrhau yswiriannau o'r fath yn cael ei ystyried yn doriad yn y Contract ac yn rhoi'r hawl i'r Coleg derfynu'r Contract yn unol â chymal 30.

22 Atebolrwydd

- 22.1 Mae'r cymal hwn yn rhestru holl atebolrwydd ariannol y Coleg (gan gynnwys unrhyw atebolrwydd am weithred neu anwaith gan ei weithwyr cyflogedig, asiantau, ymgynghorwyr ac isgcontractwyr) i'r Cyflenwr mewn perthynas ag unrhyw doriad gan y Coleg o ran:

- (a) Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 neu'r
- (b) Contract

ac unrhyw achos, datganiad neu weithred neu anwaith camweddus (gan gynnwys esgeuluser) sy'n codi o dan y Contract neu mewn perthynas â'r Contract.

22.2 Nid oes dim yn y Contract yn cyfyngu nac yn atal atebolrwydd y Coleg:

- (a) am farwolaeth neu anaf personol sy'n ganlyniad i esgeuluser neu
- (b) am unrhyw ddifrod neu atebolrwydd sy'n digwydd i'r Cyflenwr o ganlyniad i dwyll neu gamliwio twyllodrus gan y Coleg.

22.3 Ni fydd y Coleg yn atebol am:

- (a) golli elw; neu
- (b) golli busnes; neu
- (c) golli contract; neu
- (d) golled oherwydd llygru data; neu
- (e) unrhyw golledion, costau, difrod, iawndaliadau, ffioedd neu dreuliau arbennig, anuniongyrchol, canlyniadol neu economaidd.

22.4 Bydd cyfanswm atebolrwydd y Coleg o ran contract, camwedd (gan gynnwys esgeuluser neu ddyletswydd statudol), camliwiad, costau adfer neu fel arall sy'n codi mewn perthynas â chyflawni neu gyflawniad arfaethedig y Contract neu mewn perthynas ag unrhyw gyswllt rhwng y partïon (gan gynnwys unrhyw broses gystadleuol) wedi'i gyfyngu i £10,000 ac ni fydd yn mynd dros hynny.

23. Hawl a risg

23.1 Bydd yr hawl am y Nwyddau a'r risg yn trosglwyddo i'r Coleg ar ôl cwblhau'r Cyflenwi neu'r Gosodiad, os bydd angen.

24. Pris a thalu

24.1 Pris y Nwyddau fydd y pris a nodir ar yr Archeb, neu, os na chaiff pris ei nodi, bydd y pris a nodir yn rhestr brisiau'r Cyflenwr ar ddyddiad llunio'r Contract yn cael ei ddefnyddio.

24.2 Bydd pris y Nwyddau yn cynnwys costau pecynnu, yswiriant a chludeant y Nwyddau. Ni fydd costau ychwanegol yn cael eu codi os na chytunwyd arnynt yn ysgrifenedig gan y Coleg, a'u bod wedi'u llofnodi.

24.3 Pris y Gwasanaethau fydd y pris a nodir ar yr Archeb, a bydd yn dâl llawn a chyfyngedig i'r Cyflenwr mewn perthynas â chyflawni'r Gwasanaethau. Os na chytunwyd yn ysgrifenedig fel arall gan y Coleg, bydd y costau'n cynnwys pob cost uniongyrchol neu anuniongyrchol gan y Cyflenwr wrth gyflawni'r Gwasanaethau.

24.4 Gall y Cyflenwr anfonebu'r Coleg ar ôl iddo Dderbyn y Nwyddau neu'r Gwasanaethau. Bydd pob anfoneb yn cynnwys y wybodaeth ategol sydd ei hangen gan y Coleg i wirio cywirdeb yr anfoneb, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig, i'r rhif Archeb perthnasol.

24.5 Pan fo'r Cyflenwr yn cyflwyno anfoneb i'r Coleg yn unol â pharagraff 24.4, bydd y Coleg yn ystyried ac yn gwirio'r anfoneb mewn modd amserol.

24.6 Bydd y Coleg yn talu unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Cyflenwr yn ôl anfoneb o'r fath ddim hwyrach na 30 diwrnod o'r dyddiad y mae'r Coleg wedi'i bennu y mae'r anfoneb yn ddilys ac yn cael ei derbyn yn ddiamau.

24.7 Os bydd y Coleg yn methu â chydymffurfio â chymal 24.5 a bod yna oedi gormodol wrth ystyried a dilysu'r anfoneb, bydd yr anfoneb yn cael ei hystyried yn ddilys ac wedi'i derbyn yn ddiamau ar gyfer dibenion paragraff 24.6 wedi i amser rhesymol fynd rhagddo.

24.8 Pan fo'r Cyflenwr yn llunio Is-gontract, bydd y Cyflenwr yn cynnwys yn yr Is-gontract hwnnw:

- a) Ddarpariaethau sydd yn cael yr un effaith â chymalau 24.5, 24.6 a 24.7 y Cytundeb hwn; a
- b) Ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i wrthran yr Is-gontract gynnwys mewn unrhyw Is-gontract mae'n ei lunio, ddarpariaethau sydd yn cael yr un effaith â chymalau 24.5, 24.6, 24.7 a 24.8 y Cytundeb hwn.
- c) Yng nghymal 24.8 mae "Is-gontract" yn golygu contract rhwng dau neu ragor o bartïon, pa mor bell bynnag oddi wrth y Coleg yn y gadwyn is-gontractio, a wneir yn gyfan gwbl neu'n rhannol i ddiben cyflawni (neu gyfrannu at gyflawni) y Contract cyfan neu unrhyw ran ohono.

- 24.9 Nid yw'r swm sy'n daladwy gan y Coleg o dan y Contract yn cynnwys symiau mewn perthynas â Threth ar Werth (TAW) a godir o bryd i'w gilydd. Pan fo unrhyw gyflenwad trethadwy ar gyfer dibenion TAW yn cael ei wneud o dan y Contract gan y Cyflenwr i'r Coleg, bydd y Coleg, wedi iddo dderbyn anfoneb TAW ddilys gan y Cyflenwr, yn talu i'r Cyflenwr symiau ychwanegol o'r fath mewn perthynas â TAW sydd i'w codi am gyflenwi'r Nwyddau a'r / neu'r Gwasanaethau ar yr un pryd â'r taliad sy'n ddyledus am gyflenwi'r Nwyddau a'r / neu'r Gwasanaethau.
- 24.10 Gall y Coleg, heb gyfyngu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill a all fod ganddo, osod unrhyw symiau sy'n ddyledus iddo gan y Cyflenwr yn erbyn unrhyw symiau sy'n ddyledus ganddo i'r Cyflenwr o dan y Contract.

25. Gwybodaeth gyfrinachol

- 25.1 Bydd parti ("y parti sy'n derbyn") yn cadw'n hollol gyfrinachol yr holl wybodaeth, manylebau, dyfeisiadau, prosesau neu gynlluniau technegol neu fasnachol sy'n cael eu datgelu i'r parti sy'n derbyn gan y parti arall ("parti sy'n datgelu"), ei weithwyr cyflogedig, asiantau neu isgontractwyr, ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol arall sy'n ymwneud â busnes, cynnyrch neu wasanaethau'r parti sy'n datgelu y bydd y parti sy'n derbyn yn ei chael. Yn unol ag unrhyw ddarpariaethau datganiedig yn y Contract, ni fydd y parti derbyn ond yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol o'r fath i'r rhai ymhlith ei weithwyr cyflogedig, asiantau neu isgontractwyr sydd angen y wybodaeth er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract, a bydd yn sicrhau bod gweithwyr cyflogedig, asiantau neu isgontractwyr o'r fath yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.
- 25.2 Bydd y Cyflenwr bob amser yn ymdrechu i weithredu er budd y Coleg yn unol â dyletswydd o ymddiriedaeth a hyder.
- 25.3 Ni fydd y Cyflenwr na'r Coleg, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw, yn defnyddio unrhyw wybodaeth gyfrinachol ar gyfer unrhyw ddiben nad yw'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Contract, nac yn defnyddio unrhyw wybodaeth sy'n gynwysedig mewn unrhyw ddeunydd a baratoir neu a ddarperir gan y Coleg neu'r Contractwr yn unol â'r Contract gan fod yr holl wybodaeth hon yn cael ei hystyried yn gyfrinachol.

26. Cyhoeddusrwydd

- 26.1 Os na chafwyd caniatâd ysgrifenedig gan y Coleg, ni fydd y Cyflenwr yn cyhoeddi nac yn caniatáu i gael ei gyhoeddi, un ai ei hun neu ar y cyd ag eraill, unrhyw wybodaeth, erthyglau, ffotograffau neu ddyluniadau eraill sy'n berthnasol neu'n gysylltiedig ag un ai'r Contract neu waith y Coleg.
- 26.2 Ni fydd y Cyflenwr yn cyfeirio at y Coleg neu'r Contract nac yn defnyddio logo'r Coleg neu gyfrwng adnabod arall mewn unrhyw hysbyseb na chyhoeddiad cyhoeddus arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Coleg. Nid yw hyn yn atal y Contractwr rhag cyhoeddi deunydd cyhoeddusrwydd a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Coleg.

27. Eiddo Deallusol

- 27.1 Bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, cynlluniau, data, lluniadau, cronfeydd data, patentau, patrymau, modelau, dyluniadau neu ddeunyddïau eraill:
- (a) a ddarperir i'r Cyflenwr gan y Coleg yn parhau'n gyfan gwbl i fod yn eiddo i'r Coleg;
 - (b) a baratowyd gan neu i'r Cyflenwr yn benodol ar gyfer y Coleg mewn perthynas â chyflenwi'r Contract yn perthyn i'r Coleg;
 - (c) oedd eisoes yn bodoli ar ddechrau'r Contract ac sy'n eiddo i'r Cyflenwr neu'n drwyddedig ganddo yn cael ei drwyddedu i'r Coleg i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol i'r Coleg gyflawni ei hawliau eraill o dan y Contract. Bydd trwydded o'r fath yn wastadol, yn fyd-eang, yn derfynol, yn ddi-freindal ac yn gymwys ar gyfer is drwydded ar y telerau hynny.

28 Atal Llwgwrwbrwyo

28.1 Bydd y Cyflenwr yn:

- a) cydymffurfio â'r holl ddeddfau, statudau, rheoliadau a chodau perthnasol sy'n ymwneud ag atal llwgwrwbrwyo a llygredd gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Llwgwrwbrwyo 2010 ("Gofynion Perthnsaol");
- (b) ni fydd yn cymryd rhan mewn unrhyw weithred, ymarfer neu ymddygiad a fyddai'n gyfystyr â throedd o dan adrannau 1, 2 neu 6 o Ddeddf Llygredd 2010 os yw gweithred, ymarfer neu ymddygiad wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig;

- c) sicrhau ei fod yn cynnal drwy gydol tymor y cytundeb hwn ei bolisiau a'i weithdrefnau ei hun, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithdrefnau digonol o dan Ddeddf Llwgwrwobrwyo 2010, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gofynion Perthnasol a chymal 28.1 (b), a bydd yn eu gofodi fel ag y bo'n briodol; ac
- (d) yn hysbysu'r Coleg ar unwaith am unrhyw geisiadau neu alwadau am unrhyw fantais ariannol neu fantais arall amhriodol o unrhyw fath a dderbyniwyd gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â chyflawni'r cytundeb hwn;

28.2 Bydd torri'r cymal hwn (28) yn rhoi'r hawl i'r Coleg derfynu'r Contract ar unwaith.

29 Diogelu Data

29.1 Mae'r partion yn cydnabod mai'r Sefydliad sy'n Aelod yw'r Rheolwr Data a'r Prosesydd yw'r Cyflenwr. Rhestrir y gwaith Prosesu Data Personol y mae gan y Cyflenwr yr hawl i'w wneud yn Atodlen 1 (Manylion Diogelu Data) yn y Cytundeb hwn.

29.2 Ni fydd y Cyflenwr yn prosesu Data Personol ddim ond i'r graddau, ac mewn ffordd, sy'n angenrheidiol i'r dibenion a nodir yn y Fanyleb ac yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig gan y Sefydliad sy'n aelod o bryd i'w gilydd ac ni fydd yn prosesu'r Data Personol ar gyfer unrhyw ddiben arall. Os yw'r Ddeddf yn gofyn i'r Cyflenwr Brosesu Data Personol, sy'n wahanol i'r hyn a nodir yn y Cymal hwn, dylid rhoi gwybod i'r Sefydliad sy'n Aelod yn syth cyn Prosesu Data Personol (oni bai bod y ddeddf yn eich atal rhag gwneud hyn).

29.3 Bydd y Cyflenwr yn cynnig pob cymorth rhesymol i'r Sefydliad sy'n Aelod wrth baratoi unrhyw asesiad effaith ar ddiogelu data, fel y nodir yn y GDPR, cyn dechrau ar unrhyw waith Prosesu. Gall y cymorth hwn, yn ôl disgrisiwn y Sefydliad sy'n Aelod, gynnwys:

- (a) disgrifiad systematig o'r gweithrediadau Prosesu a ragwelir a phwrpas y Prosesu;
- (b) asesiad o angenrheidrwydd a chyfranoldeb y gweithrediadau prosesu o ran y Fanyldeb;
- (c) asesiad o'r risg i hawliau gwrthrychau'r Data; a'r
- (d) mesurau y rhagwelir i fynd i'r afael â'r risgiau, yn cynnwys dulliau diogelu, mesurau a mecanweithiau diogelwch i sicrhau diogelwch Data Personol.

29.4 Ni fydd y Cyflenwr yn Prosesu Data Personol, neu'n rhannu unrhyw Ddata Personol gydag unrhyw barti, tu allan i'r EEA oni bai y ceir caniatâd ysgrifenedig gan y Sefydliad sy'n Aelod o flaen llaw. Yn yr achosion hynny lle rhoddir caniatâd bydd y Cyflenwr yn cymryd camau ac yn creu cytundeb, oherwydd efallai y bydd gofyn i'r Sefydliad sy'n Aelod sicrhau bod trosglwyddo neu ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

29.5 Bydd y Cyflenwr yn cadw cofnod o unrhyw Ddata Personol mae'n ei brosesu yn y Contract.

29.6 Ni fydd y Cyflenwr yn datgelu Data Personol i unrhyw berson y tu allan i'r Cytundeb oni cheir caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny.

29.7 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod mynediad i Ddata Personol wedi'i gyfyngu i:

- (a) weithwyr cyflogedig sydd angen mynediad i Ddata Personol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn; a
- (b) bydd unrhyw fynediad gan weithwyr cyflogedig i ran neu rannau o Ddata Personol wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol i'r gweithiwr cyflogedig hwnnw gyflawni ei waith.

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod gweithwyr sydd angen mynediad i Ddata Personol:

- (a) yn cael gwybod am natur gyfrinachol y Data Personol;
- (b) wedi cael hyfforddiant ar y deddfau sy'n ymwneud â gweithio gyda Data Personol a'u
- (c) bod yn ymwybodol o ddyletswyddau'r Cyflenwr a'u dyletswyddau a'u rhwymedigaethau personol hwy o dan deddfau o'r fath a'r Contract hwn.

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod y rhai hynny sydd ag awdurdod i Brosesu Data Person yn rhan o rwymedigaeth gytundebol briodol neu rwymedigaeth gyfreithiol arall yn ymwneud â chyfrinachedd a Data Personol.

Ni fydd y Cyflenwr yn datgelu Data Personol i Wrthrychau'r Data neu i unrhyw drydydd parti, oni bai y ceir cais gan y Sefydliad sy'n Aelod i wneud hynny neu fel y nodir yn y Contract hwn.

O gofio natur y Prosesu, bydd y Cyflenwr yn cymryd camau sefydliadol a thechnegol priodol yn erbyn prosesu Data Personol yn anghyfreithlon neu heb awdurdod, ac yn erbyn ei golli'n ddamweiniol, ei ddifrodi neu'i niweidio sydd wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan y Sefydliad sy'n Aelod o ystyried:

- (a) natur y Data Personol i'w ddiogelu; (b) drwg a allai ddigwydd o ganlyniad i fynediad diawdurdod at ddata; (c) datblygiad technolegol; a (d) cost o weithredu unrhyw fesurau.
- 29.8 Mae mesurau technegol a sefydliadol yn cynnwys amgryptio a rhoi data personol dan ffugenw, diogelu cyfrinachedd, cywirdeb, argaeledd a gwydnwch systemau a gwasanaethau, sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad at Ddata Personol yn gyflym wedi digwyddiad, cymryd camau rhesymol i sicrhau dibynadwyaeth y gweithwyr cyflogedig sydd â mynediad at Ddata Personol ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau a ddilynir yn rheolaidd.
- 29.9 Bydd y Cyflenwr yn rhoi gwybod i'r Sefydliad sy'n Aelod yn syth, o fewn 24 awr, am unrhyw fynediad diawdurdod at ddata a bydd yn cydweithio gyda'r Sefydliad sy'n Aelod i gynnig cymorth. Bydd hyn yn cynnwys archwilio'r achos o fynediad diawdurdod at ddata (yn cynnwys (i) helpu gydag unrhyw archwiliad a gychwynnir gan y Sefydliad sy'n Aelod; (ii) hwyluso cyfweiliadau gyda gweithwyr cyflogedig y Cyflenwr ac eraill sy'n rhan o'r mater; a (iii) cael gafael ar yr holl gofnodion perthnasol sydd eu hangen ar y Sefydliad sy'n Aelod i archwilio i'r achos neu i gydymffurfio â'r ddeddf neu geisiadau gan unrhyw awdurdod rheoli cymwys sy'n ymwneud â'r achos neu ei archwiliad).
- 29.10 Ni fydd y Cyflenwr yn ymgysylltu ag unrhyw Brosesydd arall i Brosesu Data Personol heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Sefydliad sy'n Aelod o flaen llaw, ac yn yr achos lle rhoddir caniatâd, llunio contract gyda'r Prosesydd sy'n pennu'r rhwymedigaethau cytundebol a nodir yn y Cymal hwn ar y Prosesydd hwnnw, a pharhau'n gyfrifol dros unrhyw Brosesydd arall yn unol â thelerau'r Cymal hwn.
- 29.11 Bydd y Cyflenwr yn cynorthwyo ac yn cydweithredu'n llawn gyda'r Sefydliad sy'n Aelod i'w alluogi i gydymffurfio â'i rwymedigaethau fel Rheolwr Data dan ac yn unol â'r ddeddf, yn cynnwys diogelwch prosesu, ceisiadau gan wrthrychau'r data o ran hawliau, adrodd ar achosion o fynediad diawdurdod at ddata personol i awdurdod arolygol a chynnal asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd data. Bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Sefydliad sy'n Aelod o fewn 24 awr os bydd yn derbyn cais gan Wrthrych y Data i ddefnyddio ei hawliau dan y Ddeddf neu unrhyw gyfathrebu gan Wrthrych y Data, y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall mewn cysylltiad â Data Personol a Broseswyd dan y Contract hwn.
- 29.12 Bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio ar unwaith ag unrhyw gais gan y Sefydliad sy'n Aelod ar i'r Cyflenwr newid, trosglwyddo neu ddileu Data Personol. Ar gais y Sefydliad sy'n Aelod, bydd y Cyflenwr yn darparu i'r Sefydliad sy'n Aelod gopi o'r holl Ddata Personol a gedwir ganddo ar fformat ac mewn cyfrwng a nodir yn rhesymol gan y Sefydliad sy'n Aelod.
- 29.13 Ar gais y Sefydliad sy'n Aelod, bydd y Cyflenwr yn dychwelyd yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a/neu ddata (yn cynnwys unrhyw Ddata Personol y mae'r Cyflenwr yn ei brosesu ar gyfer ac ar ran y
- 29.14 Sefydliad sy'n Aelod) i'r Aelod hwnnw a/neu'n dileu'r wybodaeth uchod oddi ar ei systemau, yn cynnwys unrhyw gopïau wrth gefn.
- 29.15 Bydd y Cyflenwr yn dileu neu'n dychwelyd (yn ôl dymuniad y Sefydliad sy'n Aelod) yr holl Ddata Personol i'r Sefydliad sy'n Aelod pan ddaw'r Cytundeb i ben ac yn dileu unrhyw gopïau o'r Data Personol, oni bai am yr hyn mae gofyn i'r Sefydliad sy'n Aelod ei gadw yn ôl y ddeddf.
- 29.16 Bydd y Cyflenwr yn rhannu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y Sefydliad sy'n Aelod i ddangos ein bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cymal hwn ac yn cynorthwyo ac yn cyfrannu at y gwaith o gynnal archwiliadau, yn cynnwys archwiliadau a wneir gan y Sefydliad sy'n Aelod neu archwilwyr eraill a gaiff eu penodi gan y Sefydliad sy'n Aelod.
- 29.17 Bydd y Cyflenwr yn rhoi gwybod i'r Sefydliad sy'n Aelod ar unwaith os oes unrhyw gyfarwyddyd gan y Sefydliad sy'n Aelod yn mynd yn groes i'r ddeddf.
- 29.18 Yn unol â'r Cytundeb hwn, bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio â'r ddeddf yn llwyr o ran diogelu data a bydd gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y parheir i gadw at y ddeddf. Bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio gyda'i rwymedigaethau fel Prosesydd dan ac yn unol â'r Ddeddf.

29.19 Ni fydd y Cyflenwr ond yn casglu Data Personol ar ffurf sy'n cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf a fydd yn cynnwys rhybudd diogelu data i roi gwybod i wrthrych y data pwy yw Rheolwr y Data, pwy yw'r cynrychiolwr diogelu data a allai fod wedi'u penodi, ac ar gyfer pa ddiben neu ddibenion y bydd eu Data Personol yn cael ei brosesu ac unrhyw wybodaeth arall sy'n angenrheidiol gan ystyried yr amgylchiadau penodol y bydd y data yn cael ei brosesu er mwyn i'r gwaith prosesu mewn perthynas â Gwrthrych y Data fod yn deg ac yn unol â'r ddeddf.

29.20 Gall y Sefydliad sy'n Aelod adolygu'r cymal hwn ar unrhyw adeg, wedi rhoi o leiaf 30 diwrnod gwaith o rybudd, drwy ei newid i gynnwys unrhyw reolwr perthnasol i brosesu cymalau safonol neu dermau tebyg gan ffurfio rhan o gynllun tystysgrifio perthnasol. 29.21 Mae'r partion yn cytuno i ystyried unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gall y Sefydliad sy'n Aelod, yn dilyn o leiaf 30 diwrnod o rybudd, newid y Contract hwn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

29.22 Gall y Cyflenwr Brosesu Data Personol i wneud y gwasanaethau a nodwyd gan y Sefydliad sy'n Aelod yn unig ac am y cyfnod angenrheidiol, heb fod yn hirach na chyfnod y Contract hwn.

29.23 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu:

(a) y bydd yn prosesu'r Data Personol yn unol â'r Ddeddf, ac

(b) y bydd yn cymryd camau sefydliadol a thechnegol i ddiogelu yn erbyn torri rheolau data

Mae'r Cyflenwr yn cytuno i ddigolledu'r Sefydliad sy'n Aelod a'i amddiffyn ar ei gost ei hun yn erbyn holl gostau, hawliadau, iawndaliadau neu dreuliau a gafwyd gan y Sefydliad sy'n Aelod neu y gall y Sefydliad sy'n Aelod fod yn gyfrifol amdanynt o ganlyniad i unrhyw ddiffyg gan y Cyflenwr neu ei weithwyr cyflogedig neu asiantau i gydymffurfio ag unrhyw rai o'i rwymedigaethau o dan y cymal hwn.

29.24 Atodlen 1 y Cytundeb

Bydd Atodlen 1 newydd yn cael ei chynnwys yn y Cytundeb ar ddiwedd y contract fel a ganlyn:

Atodlen 1: Manylion Diogelu Data MANYLION DIOGELU DATA

Cynnwys a hyd y Prosesu	Bydd y partion yn Prosesu Data Personol yng nghydstun: [●] [disgrifio'r gwasanaethau perthnasol a disgrifio am ba mor hir fydd y data personol yn cael ei brosesu - a fydd hyn yn cael ei bennu yn ôl cyfnod amser neu am gyn hired ag y bydd angen? Ystyried hirhoedledd y contract ac os bydd angen cadw'r data personol wedi i'r contract ddod i ben.]
Natur a phwrpas y Prosesu	Gwneir y gwaith Prosesu ar gyfer dibenion: [●] [disgrifio pa fath o waith prosesu data personol fydd yn cael ei wneud ac i ba ddiben e.e. er diben gwasanaethau TG i fyfyrwyr unigol, cofnodi enw defnyddwyr ac ati...]
Y math o Ddata Personol sy'n cael ei Brosesu	Bydd y Data Personol yn cynnwys: [●] [e.e. Enwau, cyfeiriadau e-bost, cyfeiriadau cartref, cyfeiriadau ip, enwau defnyddwyr a chyfrineiriau perthnasol, rhifau adnabod myfyrwyr, rhifau yswiriant gwladol.]
Categoriâu Gwrthrychau'r Data	Bydd Gwrthrychau'r Data yn cynnwys: [●] [e.e. contractwyr, myfyrwyr, gweithwyr cyflogedig ac ati]

30 Addasu contractau tra eu bod mewn grym

- 30.1 Gellir addasu'r Contract heb unrhyw weithdrefn gaffael yn unol â'r cymal hwn mewn unrhyw un o'r achosion canlynol:
- (a) pan fo'r addasiadau, beth bynnag fo eu gwerth ariannol, wedi eu cynnwys yn y dogfennau caffael gwreiddiol mewn cymalau adolygu eglur, manwl a diamwys, a all gynnwys cymalau neu opsiynau ar newid prisiau, cyn belled â bod cymalau o'r fath -
 - (i) yn nodi rhychwant a natur addasiadau neu opsiynau posibl yn ogystal â'r amgylchiadau lle y gellir eu defnyddio, ac
 - (ii) nad ydynt yn darparu ar gyfer addasiadau neu opsiynau a fyddai'n newid natur gyffredinol y contract neu'r cytundeb fframwaith;
 - (b) ar gyfer gwaith ychwanegol, gwasanaethau neu gyflenwadau gan y Cyflenwr gwreiddiol sydd wedi dod yn angenrheidiol ac na chawsant eu cynnwys yn y broses gaffael wreiddiol, lle
 - (i) na ellir newid Cyflenwr am resymau economaidd neu dechnegol megis gofynion cyfnewidiadwy neu allu i weithio gydag offer, gwasanaethau neu osodiadau presennol a gafwyd o dan y broses gaffael wreiddiol, neu
 - (ii) byddai newid Cyflenwr yn achosi anhwylystod neu ddyblygu costau'n sylweddol i'r Coleg, cyn belled nad yw unrhyw gynnydd mewn pris yn uwch na 50% o werth y Contract gwreiddiol;
 - (c) pan fo'r cyfan o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni:
 - (i) mae'r angen am addasu wedi ei achosi gan amgylchiadau na fyddai'r Coleg wedi gallu eu rhagweld;
 - (ii) nid yw'r addasiad yn newid natur gyffredinol y Contract;
 - (iii) nid yw unrhyw gynnydd mewn pris yn uwch na 50% o werth y Contract gwreiddiol neu'r cytundeb fframwaith.
 - (d) pan fo Cyflenwr newydd yn cymryd lle'r un roedd y Coleg wedi dyfarnu'r Contract iddo'n wreiddiol o ganlyniad i -
 - (i) gymal neu opsiwn adolygu diamwys sy'n cydymffurfio ag is-baragraff (a), neu
 - (ii) ddilyniant cyffredinol neu rannol i sefyllfa'r Cyflenwr gwreiddiol, yn dilyn ailstrwythuro corfforaethol, gan gynnwys trosfeddiannu, uno, pryniant neu fethdaliad, gan weithredwr economaidd arall sy'n bodloni'r meini prawf ansoddol gwreiddiol ar gyfer dewis, cyn belled nad yw hyn yn golygu addasiadau sylweddol eraill i'r Contract ac nad ei fwriad yw osgoi defnyddio'r Rhan hon;
 - (e) pan nad yw'r addasiadau, beth bynnag fo eu gwerth ariannol, yn sylweddol o fewn ystyr paragraff 30.2; neu
 - (f) lle mae paragraff 30.1 yn berthnasol.
- 30.2 Mae'r paragraff hwn yn berthnasol pan fo gwerth yr addasiad yn is na'r ddau werth a ganlyn:
- (a) y trothwy perthnasol, a
 - (b) 10% o werth gwreiddiol y Contract am gontractau am wasanaethau a chyflenwadau a 15% o werth gwreiddiol y Contract am gontractau gwaith, cyn belled nad yw'r addasiad yn newid natur gyffredinol y Contract neu'r cytundeb fframwaith.
- 30.3 Os caiff nifer o addasiadau olynol eu gwneud, y gwerth fydd gwerth cronrus net yr addasiadau olynol.
- 30.4 Bydd addasiadau i'r Contract tra pery mewn grym yn cael eu hystyried yn sylweddol pan fo un neu ragor o'r amgylchiadau a ganlyn yn cael eu bodloni:

- (a) mae'r addasiad yn peri i'r Contract fod yn wahanol yn ei hanfod i'r un gwreiddiol;
- (b) mae'r addasiad yn cyflwyno amodau a fyddai, pe baent yn rhan o'r weithdrefn gaffael wreiddiol, wedi
 - (i) caniatáu i ymgeiswyr eraill gael eu dewis yn lle'r rhai a ddewiswyd yn wreiddiol,
 - (ii) caniatáu i dendr arall gael ei ddewis yn lle'r un a dderbyniwyd yn wreiddiol, neu
 - (iii) denu ymgeiswyr eraill i gymryd rhan yn y weithdrefn gaffael
- (c) mae'r addasiad yn newid cydbwysedd economaidd y Contract neu'r cytundeb fframwaith er budd y Cyflenwr mewn dull na ddarparwyd ar ei gyfer yn y Contract gwreiddiol neu'r cytundeb fframwaith;
- (d) mae'r addasiad yn ymestyn rhychwant y Contract neu'r cytundeb fframwaith yn sylweddol;
- (e) mae Cyflenwr newydd yn cymryd lle'r un roedd yr awdurdod contractio wedi dyfarnu'r Contract iddo'n wreiddiol mewn achosion ar wahân i'r rhai y darperir ar eu cyfer ym mharagraff (1) (d).

30.5 Bydd angen gweithdrefn gaffael newydd ar gyfer addasiadau i ddarpariaethau contract cyhoeddus neu gytundeb fframwaith sy'n wahanol i'r rhai y darperir ar eu cyfer yn y Contract hwn trap pery mewn grym.

31. Terfynu'r Contract

31.1 Gall unrhyw barti, heb gyfyngu ar hawliau neu rwymedïau eraill a all fod ganddo, derfynu'r Contract:

- (a) mewn perthynas â chyflenwi Gwasanaethau, drwy roi 90 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r parti arall; a
- (b) mewn perthynas â chyflenwi Nwyddau, ar unrhyw adeg cyn Cyflenwi drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr. Mewn achos o'r fath bydd y Coleg yn talu iawndal teg a rhesymol i'r Cyflenwr am waith oedd ar y gweill ar adeg y terfyniad, ond ni fydd iawndal o'r fath yn cynnwys colled mewn elw disgwylidig neu unrhyw golled ganlyniadol.

31.2 Gall y Coleg derfynu'r Contract ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr os:

- (a) bydd y Cyflenwr yn cyflawni toriad materol neu barhaus yn y Contract ac (os oes modd unioni toriad o'r fath) yn methu â gwneud hynny o fewn [7] diwrnod o dderbyn y rhybudd ysgrifenedig o'r toriad;
- (b) bydd y Cyflenwr yn peidio, neu'n bygwth peidio, a thalu ei ddyledion, neu'n methu â thalu ei ddyledion pan fônt yn ddyledus neu'n cyfaddef na all dalu ei ddyledion, neu (os yw'n Gwmni) yn cael ei farnu'n analluog i dalu ei ddyledion yn unol ag adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986, neu (os yw'n unigolyn) yn cael ei farnu un ai'n analluog i dalu ei ddyledion neu heb fod ag unrhyw obaith rhesymol o wneud hynny, yn unol ag adran 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986, neu (os yw'n Bartneriaeth) bod ganddo bartner y mae unrhyw un o'r uchod yn berthnasol iddo;
- (c) bydd y Cyflenwr yn dechrau trafodaethau â'r cyfan neu ag unrhyw garfan o'i gredydwy'r gyda'r bwriad o aildrefnu ei ddyledion, neu'n cynnig neu'n dod i drefniant neu gyfaddawd â'i gredydwy'r;
- (b) bydd (os yw'n gwmni) deiseb yn cael ei llenwi, rhybudd yn cael ei roi, penderfyniad yn cael ei basio neu orchymyn yn cael ei wneud ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, terfynu'r Cyflenwr, ac eithrio ar gyfer cynllun ar gyfer uniad diddyled y Cyflenwr ag un neu ragor o gwmnïau neu aildrefnu diddyled;
- (e) bydd (os yw'n unigolyn) y Cyflenwr yn destun deiseb neu orchymyn methdaliad;
- (f) bydd credydwr neu lyffetheiriwr i'r Cyflenwr yn atafael neu'n meddiannu, neu fod unrhyw broses arall o'r fath yn cael ei chymryd neu'i gorfodi neu'i herlyn yn erbyn y cyfan neu unrhyw ran o'i asedau a bod atafaeliad neu broses o'r fath ddim yn cael ei datrys o fewn 14 diwrnod;
- (g) bydd (os yw'n gwmni) cais yn cael ei wneud i lys, neu orchymyn yn cael ei wneud, ar gyfer apwyntio gweinyddwr neu rybudd o fwriad i apwyntio gweinyddwr yn cael ei roi neu os oes gweinyddwr yn cael apwyntio dros y Cyflenwr;

- (h) bydd (os yw'n gwmni) deiliad taliad ansefydlog dros asedau'r Cyflenwr wedi cael yr hawl i apwyntio neu wedi apwyntio derbynnydd gweinyddol;
- (i) bydd unigolyn yn cael yr hawl i apwyntio derbynnydd dros asedau'r Cyflenwr neu bydd derbynnydd yn cael ei apwyntio dros asedau'r Cyflenwr;
- (j) bydd rhywbeth yn digwydd, neu achos yn cael ei gynnal, mewn perthynas â'r Cyflenwr mewn unrhyw awdurdodaeth y mae'n rhwym iddi sydd ag effaith gyfatebol neu debyg i unrhyw un o'r digwyddiadau a grybwyllir yng nghymal 31.2 (i) yn gynhwysol;
- (k) bydd y Cyflenwr yn peidio, neu'n bygwth peidio, parhau â rhan sylweddol neu'r cyfan o'i fusnes;
- (l) bydd sefyllfa ariannol y Cyflenwr yn dirywio i'r fath raddau nes bod y Coleg o'r farn bod gallu'r Cyflenwr i gyflawni ei rwymedigaeth o dan y Contract i safon dderbyniol mewn perygl; neu
- (m) os bydd (os yw'n unigolyn) y Cyflenwr yn marw neu ei fod, oherwydd salwch neu anallu (pa un ai'n feddyliol neu'n gorfforol) yn methu rheoli ei faterion busnes neu ei fod yn dod yn glaf o dan unrhyw ddeddfwriaeth iechyd meddwl;
- (n) bydd y Contract yn cael ei addasu'n sylweddol mewn modd a fyddai'n gofyn am weithdrefn gaffael newydd;
- (o) bydd y Cyflenwr, ar adeg dyfarnu'r Contract, wedi bod mewn un o'r sefyllfaoedd y cyfeirir atynt yn rheoliad 57(1), gan gynnwys o ganlyniad i weithredu rheoliad 57(2), a dylai felly fod wedi cael ei eithrio o'r weithdrefn gaffael; neu
- (p) na ddylai'r Contract fod wedi cael ei ddyfarnu i'r Cyflenwr oherwydd ei fod wedi torri ei rwymedigaethau o dan y Cytuniadau a'r Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn gweithdrefn o dan Erthygl 258 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

32. Canlyniadau Terfynu Contract

32.1 Ar derfynu Contract am ba bynnag reswm:

- (a) pan fo Gwasanaethau yn cael eu terfynu, bydd y Cyflenwr yn darparu i'r Coleg yr holl Gyflenwadau, pa un ai a ydynt wedi'u cwblhau ai peidio, ac yn dychwelyd yr Eitemau. Os bydd y Cyflenwr yn methu â gwneud hyn, gall y Coleg, heb gyfyngu ar ei hawliau neu rwymedïau eraill fynd i safle'r Cyflenwr a'u meddiannu. Hyd nes eu bod wedi cael eu dychwelyd neu'u cyflenwi, y Cyflenwr fydd yn gyfan gwbl gyfrifol am eu cadw'n ddiogel ac nid fydd yn eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben nad yw'n gysylltiedig â'r Contract hwn;
- (b) ni fydd hawliau a rhwymedïau'r partïon wrth derfynu yn cael eu heffeithio, gan gynnwys yr hawl i hawlio iawndal mewn perthynas ag unrhyw doriad yn y Contract oedd yn bodoli ar neu cyn dyddiad y terfyniad; a
- (c) bydd cymalau sydd yn ffurfiol neu drwy oblygiad yn cael effaith ar ôl y terfyniad yn parhau mewn grym.

33. Force majeure

33.1 Ni fydd y naill barti na'r llall yn gyfrifol i'r llall am unrhyw oediad neu fethiant o dan ei rwymedigaethau o dan y Contract i'r graddau bod oediad neu fethiant o'r fath yn cael ei achosi gan ddigwyddiad neu amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y parti hwnnw, ac oherwydd ei natur ni ellid bod wedi ei ragweld gan y parti neu, pe bai modd ei ragweld, ei fod yn amhosibl ei osgoi, cyn belled ag y bo'r Cyflenwr yn gwneud pob ymdrech resymol i gywiro unrhyw amgylchiadau o'r fath neu adfer y gwaith o gyflawni'r Contract. Os bydd unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau yn rhwystro'r Cyflenwr rhag cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract am gyfnod parhaus sy'n hwy na 30 Diwrnod Busnes, gall y Coleg derfynu'r Contract hwn ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr.

34 Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Amgylcheddol

34.1 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod y Coleg yn rhwym wrth ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ac mae'r Cyflenwr yn cytuno i gydweithredu â'r Coleg (ar gost y Cyflenwr) yn ôl mandad y Coleg mewn perthynas â'r Deddfau hyn.

- 34.2 Bydd unrhyw Geisiadau a dderbynnir gan y Cyflenwr yn cael eu hanfon ymlaen i'r Coleg ar unwaith.
- 34.3 Bydd darpariaethau cymal 34 yn ymestyn i isgontractwyr a bydd y Cyflenwr yn sicrhau cydymffurfiad â'r gofyniad hwn.
- 34.4 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod y gall y Coleg, gan weithredu'n unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, orfod datgelu gwybodaeth:
 - (a) heb ymgynghori â'r Cyflenwr; neu'n
 - (b) dilyn ymgynghori â'r Cyflenwr a rhoi ystyriaeth i farn y Cyflenwr.

35 Eitemau ar Fenthyg

- 35.1 Bydd Eitemau a fenthycwyd gan y Coleg i'r Cyflenwr mewn perthynas â'r Contract yn parhau i fod yn eiddo i'r Coleg ac yn cael eu dychwelyd i'r Coleg ar ei gais mewn cyflwr da a defnyddiol (gan ganiatáu ar gyfer traul resymol) ac i gael eu defnyddio gan y Cyflenwr ar gyfer dibenion cwblhau'r Contract yn unig. Mae'r Cyflenwr yn cytuno na fydd unrhyw gopïau o'r eitemau yn cael eu gwneud heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Swyddog Awdurdodedig. Hyd nes y bydd y Cyflenwr yn dychwelyd yr holl Eitemau i'r Coleg bydd y Cyflenwr yn gyfrifol amdanynt a byddant yn cael eu hyswiro gan y Cyflenwr ar gost y Cyflenwr yn erbyn y risg o golled, difrod neu ladrad. Bydd y Cyflenwr yn gyfrifol am ddigolledu'r Coleg am unrhyw golled neu ddifrod i Eitemau o'r fath. Rhaid i unrhyw sbwriel sy'n deillio o gyflenwi Eitemau o'r fath gael ei waredu'n ôl doethineb y Coleg a rhaid i unrhyw elw o werthu sbwriel o'r fath gael ei dalu'n syth i'r Coleg.

36 Gweithwyr Cyflogedig y Cyflenwr

- 36.1 Ar gyfarwyddyd y Coleg bydd y Cyflenwr yn darparu rhestr o enwau a chyfeiriadau'r holl bobl (os oes rhai) y bydd disgwyl iddynt fod angen mynediad i'r Safle mewn cysylltiad â'r Contract, gan nodi beth yw eu rhan yn y Contract ac unrhyw fanylion eraill y mae'n rhesymol i'r Coleg ofyn amdanynt.

Cyfrifoldeb y Cyflenwr yw sicrhau bod yr holl weithwyr a goruchwylwyr yn cael eu cofrestru ar gwrs hyfforddi'r Coleg ar Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch cyn dechrau unrhyw waith, a phob blwyddyn ar ôl hynny.
- 36.2 Bydd gweithwyr cyflogedig y Cyflenwr a rhai isgontractwyr neu asiantau'r Cyflenwr (os oes rhai) sy'n gweithio o fewn ffiniau unrhyw un o Safleoedd y Coleg yn cydymffurfio ag unrhyw reolau, rheoliadau a gofynion o'r fath (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threfniadau diogelwch) a all fod mewn grym o bryd i'w gilydd ar gyfer ymddygiad gweithwyr tra eu bod yn y syfyddiad hwnnw, a'r tu allan iddo.
- 36.3 Bydd penderfyniad y Coleg pa un ai i wrthod mynediad i unrhyw unigolyn i Safle sydd ym meddiant y Coleg, neu wedi'i feddiannu ar ei ran, yn derfynol ac yn bendant.
- 36.4 Bydd y Cyflenwr yn cael gwared ar unrhyw weithwyr cyflogedig mae'r Coleg wedi penderfynu'n rhesymol eu bod yn methu cyflawni eu dyletswyddau â sgiliau a gofal rhesymol. Yn dilyn cael gwared ar unrhyw rai o weithwyr cyflogedig y Cyflenwr am ba bynnag reswm, bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod gweithwyr eraill sydd â'r hyfforddiant a'r sgiliau angenrheidiol i fodloni gofynion y Contract yn cymryd eu lle.
- 36.5 Bydd y Cyflenwr yn ysgwyddo'r gost neu'r costau sy'n codi o unrhyw rybudd, gyfarwydd neu benderfyniad sy'n deillio o'r cymal hwn (36).
- 36.6 Bydd y Cyflenwr yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod gan unrhyw weithwyr cyflogedig, gweision neu asiantau i'r Cyflenwr neu unrhyw isgontractwyr, eu gweithwyr cyflogedig, gweision neu asiantau, a gyflogir i gyflawni'r Contract hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig ac nad ydynt yn hawlio unrhyw fudd-dal sy'n daladwy i bobl sydd wedi cofrestru'n ddi-waith.
- 36.7 Pan fo'r Rheolwr Cytundeb a benodwyd yn gadael cyflogaeth y cwmni, rhaid rhoi gwybod i'r sefydliad arweiniol ar unwaith am unrhyw drefniadau dros dro a wneir.

37 Ail-dendro a Throsglwyddo

- 37.1 O fewn 21 diwrnod i gael cais gan y Coleg, bydd y Cyflenwr yn darparu ac yna'n diweddar, ar fformat sydd wedi'i fynegriho a'i gatalogio'n llawn, yr holl wybodaeth sydd ei hangen i alluogi'r Coleg i gyhoeddi gwahoddiadau i dendro ar gyfer cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau yn y dyfodol.
- 37.2 Beth bynnag fo barn y Coleg, mae TUPE yn debygol o fod yn berthnasol i'r Coleg pan ddaw i ben, neu os yw'n cael ei derfynu. Bydd y wybodaeth sydd i'w darparu gan y Cyflenwr o dan gymal 37.1 yn cynnwys, fel ag y bo'n berthnasol, gwybodaeth gywir am y gweithwyr cyflogedig a fyddai'n trosglwyddo o dan yr un amodau cyflogaeth o dan TUPE, gan gynnwys yn benodol (ond heb fod yn gyfyngedig i): -

- (a) nifer y gweithwyr cyflogedig a fyddai'n trosglwyddo, heb unrhyw oblygiad ar y Cyflenwr i nodi enwau; a
 - (b) mewn perthynas â'r holl weithwyr cyflogedig hyn, eu dyddiad geni, rhyw, cyflog, hyd y gwasanaeth, oriau gwaith a chyfraddau, ac unrhyw ffactorau eraill sy'n effeithio ar eu hawliau dileu swyddi, unrhyw delerau penodol sy'n berthnasol i'r gweithwyr cyflogedig hyn yn unigol ac unrhyw hawliadau heb eu penderfynu sy'n codi o'u cyflogaeth; a
 - (c) y telerau a'r amodau cyffredinol sy'n berthnasol i'r gweithwyr cyflogedig hyn, gan gynnwys cyfnodau prawf, oedran ymddeol, cyfnod rhybudd, cytundebau a strwythurau tâl presennol, lwfansau tâl arbennig, oriau gwaith, hawl i wyliau blynyddol, absenoldeb oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb am resymau arbennig, budd-dal oherwydd anaf, hawliau dileu swydd, telerau symudoledd, unrhyw drefniant ar gyfer benthyciad neu lesio, ac unrhyw drefniadau cyfunol perthnasol eraill, trefniadau cyfleuster amser a budd-daliadau cyflogaeth ychwanegol.
- 37.3 Bydd y Cyflenwr yn digolledu'r Coleg yn erbyn unrhyw achos a wneir yn erbyn y Coleg ar unrhyw adeg gan unrhyw un mewn perthynas ag atebolrwydd y Coleg oherwydd unrhyw ddiffyg neu wall yn y wybodaeth y mae'n ofynnol i'r Cyflenwr ei darparu o dan gymal 36.1.
- 37.4 Bydd y Cyflenwr yn cydweithredu'n llwyr â'r Coleg yn ystod trosglwyddiad sy'n deillio o gwblhau'r Contract neu ddod ag ef i ben. Bydd y cydweithrediad hwn, yn ystod cyfnod sefydlu'r Cyflenwr newydd (os oes un) yn ymestyn i ganiatáu mynediad llawn i, a darparu copïau o'r holl ddogfennau, adroddiadau a chrynodebau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i sicrhau trosglwyddiad effeithiol.

38. TUPE (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau ((Diogelu Cyflogaeth))

- 38.1 Bydd y Cyflenwr yn digolledu ac yn parhau i ddigolledu'r Coleg yn erbyn unrhyw golled a gafwyd gan y Coleg mewn cysylltiad, neu'n deillio o unrhyw hawliad neu achos gan unrhyw undeb llafur, cynrychiolydd staff etholedig neu gymdeithas staff, yn erbyn y Coleg mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o staff neu weithwyr cyflogedig y Cyflenwr neu unrhyw weithiwr cyflogedig arall y Cyflenwr neu isgcontractwyr sy'n deillio neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw fethiant ar ran y Cyflenwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas ag Adran 188 o Ddeddf Undebau Llafur a Chydgysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 neu TUPE.
- 38.2 Bydd y Cyflenwr yn digolledu ac yn parhau i ddigolledu'r Coleg yn erbyn unrhyw golled a gafwyd gan y Coleg mewn cysylltiad, neu'n deillio o'r contract cyflogaeth neu unrhyw bolisi sy'n berthnasol i, neu unrhyw gydgytundeb mewn perthynas ag unrhyw rai o staff y Cyflenwr neu unrhyw un arall a gyflogwyd gan (neu a benodwyd fel ymgynghorwr) gan y Cyflenwr neu ei isgcontractwyr, oherwydd achos a wneir yn erbyn y Coleg ar unrhyw adeg am dorri contract, polisi, tâl diswyddo, gwahaniaethau ar sail rhyw, hil neu anabledd, tâl cyfartal, didyniadau anghyfreithlon, colli enillion, anaf diwydiannol neu bersonol neu fel arall o'r fath sy'n ymwneud â'u cyflogaeth gan y Cyflenwr ac sy'n ganlyniad i weithred, bai neu esgeulustra ar ran y Cyflenwr neu unrhyw unigolyn arall a gyflogir gan y Cyflenwr, oni bai i'r graddau mae'r atebolrwydd yn deillio o weithred anghyfreithlon gan y Coleg neu'i weithwyr cyflogedig.
- 38.3 Bydd y Cyflenwr yn digolledu ac yn parhau i ddigolledu'r Coleg yn erbyn unrhyw golled a gafwyd gan y Coleg mewn cysylltiad, neu'n deillio o unrhyw hawliad neu achos gan unrhyw undeb llafur, cynrychiolydd staff etholedig neu gymdeithas staff, yn erbyn y Coleg mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o staff neu weithwyr cyflogedig y Cyflenwr neu unrhyw weithiwr cyflogedig arall y Cyflenwr neu isgcontractwyr sy'n deillio neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw fethiant ar ran y Cyflenwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas ag Adran 188 o Ddeddf Undebau Llafur a Chydgysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 neu TUPE.
- 38.4 Os na chafodd ganiatâd ysgrifenedig gan y Coleg, ni fydd y Cyflenwr yn amrywio telerau ac amodau cyflogaeth unrhyw weithiwr cyflogedig nac unrhyw bolisi neu gydgytundeb sy'n berthnasol i unrhyw weithiwr cyflogedig a bennwyd gan y Cyflenwr neu'i isgcontractwyr i gyflawni'r Contract (ar yr amod nad yw'r ddarpariaeth hon byth yn effeithio ar hawl y Cyflenwr i weithredu unrhyw rwymedigaeth gytundebol sydd eisoes yn bodoli ar ran gweithiwr cyflogedig o'r fath) nac i symud neu gyfnewid unrhyw weithiwr cyflogedig penodol a bennwyd (os nad yw hynny ar gais y gweithiwr cyflogedig neu os yw'r gweithiwr cyflogedig yn ymddiswyddo; mewn achos o'r fath bydd y Cyflenwr yn pennu unigolyn arall gyda sgiliau, cymwysterau a phrofiadau tebyg) ar ôl i'r Coleg roi rhybudd am derfyniad y Contract neu ar ôl i'r Cyflenwr ddod yn ymwybodol am derfyniad arfaethedig neu fwriad i ail-dendro unrhyw Gontract neu ddarpariaeth ganddo o Nwyddau a Gwasanaethau.

39. Cyffredinol

- 39.1 **Trosglwyddo ac is-gontractio.**

- (a) Gall y Coleg ar unrhyw adeg bennu, trosglwyddo, talu, is-gontractio neu ymdrin mewn unrhyw ffordd arall â'r cyfan neu unrhyw un o'i hawliau neu rwymedigaethau o dan y Contract.
- (b) Ni all y Cyflenwr ar unrhyw adeg bennu, trosglwyddo, talu, is-gontractio neu ymdrin mewn unrhyw ffordd arall â'r cyfan neu unrhyw un o'i hawliau neu rwymedigaethau o dan y Contract heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Coleg.

39.2 **Rhybuddion.**

- (a) Bydd unrhyw rybudd neu gyfathrebiad arall a roddir i barti o dan, neu mewn cysylltiad â'r Contract, yn ysgrifenedig ac wedi'i gyfeirio at y parti hwnnw yn ei swyddfa gofrestredig (os yw'n gwmni) neu ei brif fan busnes (mewn achos arall) neu unrhyw gyfeiriadau eraill y gall y parti hwnnw fod wedi'u trosglwyddo'n ysgrifenedig i'r parti arall yn unol â'r cymal hwn, a bydd yn cael ei gyflwyno'n bersonol, neu'i anfon drwy'r post mewn amlen ragdaledig dosbarth cyntaf, dosbarthiad a gofnodwyd neu negesydd masnachol neu ffacs.
- (b) Bernir bod rhybudd neu gyfathrebiad arall wedi cael ei dderbyn: os caiff ei gyflwyno'n bersonol i'r cyfeiriad y cyfeirir ato yng nghymal 38.2(a); os caiff ei anfon drwy'r post mewn amlen ragdaledig dosbarth cyntaf neu ddsbarthiad a gofnodwyd; os caiff ei gyflwyno gan negesydd masnachol, ar y dyddiad y caiff derbynneb y negesydd ei llofnodi; neu, os caiff ei anfon drwy ffacs, un diwrnod busnes wedi'r trosglwyddiad.
- (c) Ni fydd darpariaethau'r cymal hwn yn berthnasol i wasanaeth unrhyw ddogfennau sy'n rhan o achos cyfreithiol.

39.3 **Toriad.**

- (a) Os bydd unrhyw lys neu awdurdod cymwys yn canfod bod unrhyw ddarpariaeth yn y Contract (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anymarferol, bydd y ddarpariaeth honno neu ran o'r ddarpariaeth, fel sy'n ofynnol, yn cael ei hystyried wedi'i dileu, ac ni fydd dilysrwydd ac ymarferoldeb y darpariaethau eraill yn y Contract yn cael eu heffeithio.
- (b) Os byddai unrhyw ddarpariaeth annilys, anymarferol neu anghyfreithlon o'r Contract yn ddilys, ymarferol a chyfreithlon pe bai rhan o'r ddarpariaeth yn cael ei dileu, bydd y ddarpariaeth yn parhau gyda chyn lleied â phosibl o addasu angenrheidiol i'w wneud yn gyfreithlon, yn ddilys ac yn ymarferol.

39.4 **Ildio Hawl.** Ni fydd unrhyw ildiad i hawl neu rwymedi o dan y Contract yn effeithiol os nad yw'n ysgrifenedig ac ni fernir ei fod yn ildio unrhyw doriad neu ddiffyg dilynol. Ni fydd unrhyw fethiant neu oediad gan barti i arfer unrhyw hawl neu rwymedi o dan y Contract neu'r gyfraith yn gyfystyr ag ildio'r hawl hwnnw neu unrhyw hawl neu rwymedi arall, nac yn nacau na'n cyfyngu ar arfer yr hawl hwn neu hawl neu rwymedi arall ymhellach. Ni fydd unrhyw arfer sengl neu rannol ar hawl neu rwymedi o'r fath yn nacau na'n cyfyngu ar arfer yr hawl hwn neu hawl neu rwymedi arall ymhellach.

39.5 **Hawliau Trydydd Partïon** Ni fydd gan unigolyn nad yw'n barti yn y Contract unrhyw hawliau o dan y contract neu mewn perthynas â'r Contract.

39.6 **Amrywiadau.** Ac eithrio fel y nodir yn y Contract, ni fydd unrhyw amrywiadau i'r Contract, gan gynnwys cyflwyno unrhyw delerau ac amodau ychwanegol, ond yn ymrwymol pan gânt eu cytuno'n ysgrifenedig a'u llofnodi gan y Coleg.

39.7 **Gwrthdaro.** Ni fydd unrhyw weithiwr cyflogedig i'r Cyflenwr yn cael ei gyflogi, nac yn ymwneud nac ac unrhyw ddiddordeb ariannol mewn unrhyw ffordd â'r Coleg nag unrhyw un o weithwyr cyflogedig y Coleg, os na chafwyd cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Coleg dan sylw.

39.8 **Cyfraith lywodraethu ac awdurdodaeth.** Bydd y Contract hwn ac unrhyw achosion sy'n ymwneud ag unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef neu'i gynnwys neu'i ffurfiant (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn gytundebol) yn dod gerbron llysoedd lle mae'r Coleg a'r/ neu'r Cyflenwr wedi'u lleoli. Bydd pob parti'n cytuno bod gan y llysoedd a nodir awdurdodaeth neilltuedig dros anghydfodau neu hawliadau o'r fath oddieithr bod unrhyw wrth hawliad yn cael ei wneud mewn achos sydd eisoes wedi dechrau.

39.9 Bydd y partion yn ceisio datrys unrhyw anghydfod sy'n deillio o'r Contract hwn neu'n ymwneud ag ef drwy drafodaethau rhwng prif swyddogion y partion sydd â'r awdurdod i ddatrys y mater. Os na chaiff y mater ei

ddatrys drwy drafodaethau o fewn 30 diwrnod o dderbyn 'gwahoddiad ysgrifenedig i drafod', bydd y partion yn ceisio datrys yr anghydfod mewn ewyllys da drwy weithdrefn Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR), neu yn niffyg cytundeb, drwy weithdrefn Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod a argymhellir i'r partion gan Lywydd neu Is-lywydd, am y tro, Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr.

Os na fydd y mater wedi'i ddatrys drwy weithdrefn Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod o fewn 60 diwrnod i ddechrau'r weithdrefn, neu os bydd un o'r partion yn gwrthod cymryd rhan yn y weithdrefn, gall yr anghydfod gael ei gyfeirio at gyflafareddwyr gan unrhyw barti. Os na call y partion gytuno ar gyflafareddwr neu gyflafareddwyr, neu os na allant gytuno ar Reolau Cyflafareddu, gall unrhyw barti, ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r partion eraill, wneud cais i Lywydd neu Is-lywydd, am y tro, Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr am unrhyw benderfyniad ar y rheolau a all fod eu hangen. Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn cael ei ddehongli fel rhywbeth sy'n gwahardd parti neu rywun cysylltiedig rhag gwneud cais i lys am waharddeb dros dro.

Os nad yw Cyflenwr wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig yna bydd unrhyw anghydfod sy'n deillio o'r Contract neu mewn cysylltiad â'r Contract presennol yn cael ei ddatrys yn derfynol o dan Reolau Cyflafareddu'r Siambwr Fasnach Ryngwladol gan un neu ragor o gyflafareddwyr a benodwyd yn unol â'r Rheolau dywededig.